Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Asesiad Effaith Integredig Llywodraeth Cymru

Tachwedd 2026

Crynodeb o'r cynnig

Nod Cynllun arfaethedig Hawl y Gymuned i Brynu yw cryfhau gallu cymunedau i ddylanwadu ar ddyfodol asedau sy'n bwysig i bobl leol. Byddai'r Cynllun yn galluogi grwpiau cymunedol cymwys i geisio caffael asedau sy'n darparu budd cymunedol ar draws y sector cyhoeddus a'r sector preifat, gan gefnogi stiwardiaeth gymunedol hirdymor, gwydnwch a llesiant lleol. Bwriedir iddo ategu trefniadau sy'n bodoli eisoes ar gyfer trosglwyddo asedau cymunedol a chreu lleoedd drwy ehangu'r amrywiaeth o asedau y gall cymunedau eu defnyddio a helpu i gadw manteision cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd o fewn cymunedau. Disgwylir i'r cynigion effeithio ar grwpiau cymunedol, perchnogion asedau, awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill sy'n ymwneud â chofrestru, gwerthu a chaffael asedau cymunedol.

Bydd y cynllun arfaethedig yn cefnogi'r ymrwymiadau a wnaed yn y Rhaglen Lywodraethu i “Greu mwy o gyfoeth cymunedol a deddfu ar gyfer hawl y gymuned i brynu, i rymuso cymunedau i gymryd perchnogaeth o asedau lleol”.

Cwestiynau sy'n gysylltiedig â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

1. **Sut mae'r pum ffordd o weithio wedi llywio'r broses o ddatblygu a gweithredu'r polisi hwn neu'r ddeddfwriaeth hon?**

Hirdymor - Cynlluniwyd y cynllun i sicrhau manteision cymdeithasol, economaidd a diwylliannol hirdymor asedau cymunedol. Drwy alluogi cymunedau i gaffael a stiwardio asedau o werth cymunedol, mae'r polisi yn ceisio cadw cyfleusterau a gwasanaethau sy'n cefnogi gwydnwch, llesiant a ffyniant lleol ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Atal - Nod y polisi yw atal achosion o golli asedau cymunedol gwerthfawr a'r canlyniadau negyddol a all ddilyn, gan gynnwys llai o gydlyniant cymunedol, ynysigrwydd cymdeithasol a cholli gwasanaethau a chyfleoedd lleol. Mae'r broses gofrestru a'r hawl cynnig cyntaf yn rhoi cyfle i gymunedau weithredu cyn i asedau gael eu colli'n barhaol.

Integreiddio - Mae asedau cymunedol yn cyfrannu at nifer o nodau llesiant ar yr un pryd, gan gynnwys ffyniant, iechyd, gwydnwch, diwylliant a chymunedau cydlynus. Cynlluniwyd y cynllun yn seiliedig ar fudd cymunedol, ac mae'r meini prawf asesu yn canolbwyntio ar ganlyniadau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol a chysondeb â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Cydweithio - Datblygwyd y cynigion drwy ymgysylltu ag awdurdodau lleol, sefydliadau cymunedol, cyrff cymorth a rhanddeiliaid eraill. Bydd llwyddiant y cynllun yn dibynnu ar bartneriaeth barhaus rhwng cymunedau, perchnogion asedau, awdurdodau lleol a sefydliadau cymorth.

Cyfranogiad - Mae gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid, gweithdai ac arolygon wedi llywio'r broses o ddatblygu'r polisi. Mae'r cynllun ei hun yn cynyddu cyfranogiad y gymuned drwy greu cyfleoedd i gymunedau nodi, cofrestru a cheisio caffael asedau sy'n bwysig i lesiant lleol.

2. **Pwy ydych chi wedi cydweithio â nhw a'u cynnwys wrth ddatblygu'r cynnig, ac er mwyn deall ei effeithiau, gan gynnwys effeithiau ar bobl, aelwydydd, cyrff cyhoeddus, busnesau a'r trydydd sector (e.e. drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol neu ymgynghori â'r cyhoedd?)**

Mae gwaith ymgysylltu cynnar â rhanddeiliaid wedi bod yn rhan flaenllaw o'r broses o ddatblygu'r cynigion polisi. Cynhaliwyd gwaith ymgysylltu gyda rhanddeiliaid ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Roedd hyn yn cynnwys awdurdodau lleol, CLlLC, Cwmpas, Ystadau Cymru, sefydliadau perchnogaeth gymunedol, grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid eraill â diddordeb.

Cynhaliwyd pum gweithdy i randdeiliaid ym mis Awst 2026, gan gynnwys sesiynau a oedd yn benodol ar gyfer awdurdodau lleol. Aeth y gweithdai hyn ati i ystyried y broses o gynllunio'r polisi a'i weithredu, gofynion cymorth, effeithiau ar y Gymraeg, a chysondeb â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Defnyddiwyd arolwg parhaus i randdeiliaid er mwyn casglu adborth ehangach, gan gynnwys gan bobl â nodweddion gwarchodedig a phobl ifanc. Mae'r gwaith ymgysylltu hwn wedi llywio'r broses o ddatblygu'r meini prawf cymhwystra, gofynion budd cymunedol, trefniadau cymorth ac ystyriaethau gweithredu.

3. **Sut mae'r polisi yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy a chanlyniadau llesiant hirdymor?**

Datblygwyd y cynigion yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a bwriedir iddynt gefnogi prosesau datblygu cynaliadwy drwy sicrhau bod modd cadw asedau sy'n darparu budd cymunedol yn yr hirdymor.

Mae asedau cymunedol yn cyfrannu at lesiant cymdeithasol, economaidd a diwylliannol drwy ddarparu mannau ar gyfer gwasanaethau lleol, gwirfoddoli, hamdden, gweithgarwch diwylliannol, cyfranogiad cymunedol a mentrau lleol. Gall diogelu'r asedau hyn gryfhau gwydnwch, gwella iechyd a llesiant, cefnogi economïau lleol, hyrwyddo diwylliant a'r iaith Gymraeg, a gwella cydlyniant cymunedol.

Mae'r cynllun yn cynnwys cyfleoedd datblygu cynaliadwy drwy ei ffocws ar fudd cymunedol. Disgwylir i grwpiau cymunedol ddangos sut mae ased yn cyfrannu at lesiant cymdeithasol, economaidd a diwylliannol a'r nodau llesiant ehangach, neu sut y gallai gyfrannu atynt.

Tynnodd rhanddeiliaid sylw at y ffaith y bydd gallu cyflawni'r polisi yn llwyddiannus hefyd yn dibynnu ar gymorth ehangach, gan gynnwys canllawiau, prosesau meithrin capasiti a mynediad at gyllid, er mwyn galluogi cymunedau i gaffael a rheoli asedau mewn ffordd gynaliadwy dros yr hirdymor.

4. **Beth yw'r effeithiau allweddol (cadarnhaol, negyddol, a chyfleoedd) ar draws pob un o'r saith nod llesiant?**

Cymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang - Effaith gadarnhaol drwy ddefnyddio asedau cymunedol mewn modd cynaliadwy a'u gwarchod yn yr hirdymor. Gall cyfleoedd godi ar gyfer gwelliannau amgylcheddol fel effeithlonrwydd ynni a dulliau rheoli asedau cynaliadwy. Ni ddisgwylir llawer o effeithiau negyddol a disgwylir i'r effeithiau hynny fod yn gysylltiedig â safleoedd penodol.

Cymru Lewyrchus - Gall perchnogaeth gymunedol gefnogi gweithgarwch economaidd lleol, cyfleoedd gwirfoddoli, datblygu sgiliau a chadw cyfoeth cymunedol. Gall rhai grwpiau wynebu heriau o ran sicrhau cyllid a meithrin capasiti, gan dynnu sylw at bwysigrwydd dulliau cymorth.

Cymru Gydnerth - Bydd y polisi yn helpu i gadw asedau sy'n cefnogi gwydnwch a hyblygrwydd cymunedol. Gall fod cyfleoedd hefyd i wella bioamrywiaeth, cynaliadwyedd amgylcheddol a'r gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd drwy ddulliau rheoli cymunedol.

Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu - Mae'r cynigion yn cefnogi ymdrechion i gadw asedau sy'n hwyluso gweithgareddau diwylliannol, mentrau diogelu treftadaeth, cyfleoedd hamdden a'r defnydd o'r Gymraeg. Gall perchnogaeth gymunedol gryfhau hunaniaeth leol a chreu cyfleoedd i hybu'r Gymraeg.

Cymunedau Cydlynus - Disgwylir i hyn fod yn un o'r effeithiau cadarnhaol mwyaf arwyddocaol. Bydd y cynllun yn helpu cymunedau i gadw lleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol, cyfranogi, gwirfoddoli a darparu gwasanaethau, gan gefnogi cymunedau cryfach a mwy cysylltiedig.

Cymru Fwy Cyfartal - Gall y polisi wella mynediad at gyfleusterau a chyfleoedd cymunedol, yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig a gwledig. Mae risg y gallai cymunedau sydd â mwy o adnoddau fod mewn sefyllfa well i ddefnyddio'r cynllun, sy'n golygu bod cymorth wedi'i dargedu yn bwysig.

Cymru Iachach - Mae asedau cymunedol yn cefnogi gweithgarwch corfforol, cysylltiad cymdeithasol a mynediad at wasanaethau, gan gyfrannu at well llesiant corfforol a meddyliol. Ni ddisgwylir fawr ddim effeithiau negyddol.

At ei gilydd, disgwylir i'r polisi wneud cyfraniad cadarnhaol ar draws pob un o'r saith nod llesiant, gyda'r effeithiau cryfaf yn debygol o fod ar Gymunedau Cydlynus, Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu, Cymru Fwy Cyfartal a Chymru Lewyrchus.

5. **Pa dystiolaeth, gan gynnwys adroddiadau o dan y Ddeddf, sydd wedi llywio'r polisi, a sut y bydd yn cefnogi'r broses barhaus ar gyfer gwneud penderfyniadau?**

Mae'r polisi yn seiliedig ar amrywiaeth o dystiolaeth, gan gynnwys gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid, adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen Comisiwn Asedau Cymunedol 2025, yn dilyn ei adolygiad o'r trefniadau ar gyfer trosglwyddo asedau cymunedol, ymchwiliad Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai'r Senedd yn 2022 i asedau cymunedol, a thystiolaeth gan ymarferwyr perchnogaeth gymunedol a sefydliadau cymorth.

Mae adroddiadau a luniwyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd wedi llywio'r broses ddatblygu. Yn benodol, tynnodd Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025 sylw at y cyfraniad y mae asedau cymunedol yn ei wneud at gydlyniant cymdeithasol, cysylltiad cymunedol a llesiant. Mae dangosyddion llesiant cenedlaethol, cerrig milltir ac Adroddiadau Tueddiadau'r Dyfodol yn darparu tystiolaeth ychwanegol ar heriau a chyfleoedd cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol hirdymor.

Bydd y gofrestr genedlaethol arfaethedig o asedau o werth cymunedol yn cynhyrchu rhagor o dystiolaeth ar raddfa a dosbarthiad asedau cymunedol ledled Cymru. Ynghyd â gwaith gwerthuso yn y dyfodol, adborth gan randdeiliaid a thystiolaeth llesiant genedlaethol, bydd hyn yn helpu i fonitro'r cynllun a'i gyfraniad at y nodau llesiant yn barhaus.

Crynodeb o'r Asesiadau Effaith ar gyfer y cynnig hwn

Cyhoeddi yn orfodol (os yw'r Asesiad Effaith yn ofynnol)

Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Wedi'i gwblhau: **Ydy**

Wedi'i gyhoeddi: **Ydy**

Asesiad Effaith Hawliau Plant

Wedi'i gwblhau: **Ydy**

Wedi'i gyhoeddi: **Ydy**

Asesiad Effaith Iechyd

Wedi'i gwblhau: **Ydy**

Wedi'i gyhoeddi: **Ydy**

Asesiad Effaith y Gymraeg

Wedi'i gwblhau: **Ydy**

Sgrinio ar gyfer Asesiad Effaith Diogelu Data

Wedi'i gwblhau: **Ydy**

Asesiadau Effaith Eraill

Asesiad Effaith Bioamrywiaeth

Wedi'i gwblhau: **Ydy**

Asesiad Effaith Prawfesur Gwledig

Wedi'i gwblhau: **Ydy**

Asesiad Effaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy

Wedi'i gwblhau: **Ydy**

Asesiad Effaith Carbon

Wedi'i gwblhau: **Ydy**

Asesiad Effaith y Ddyletswydd Ansawdd (Iechyd)

Wedi'i gwblhau: **Ydy**

Asesiad Effaith Economaidd-gymdeithasol

Wedi'i gwblhau: **Ydy**

Cynnwys

1. **Asesiad Effaith Cydraddoldeb** 7
2. **Asesiad Effaith Hawliau Plant** 20
3. **Asesiad Effaith Iechyd** 27

1. Asesiad Effaith Cydraddoldeb

ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

GWNEUD PENDERFYNIADAU GWELL A THECACH

A. Cynnig

1. Teitl y cynnig

Cynllun Hawl y Gymuned i Brynu yng Nghymru

2. Beth mae eich cynnig yn anelu at ei gyflawni?

Nod Cynllun arfaethedig Hawl y Gymuned i Brynu yw cryfhau gallu cymunedau i lywio dyfodol asedau sy'n bwysig i bobl leol. Byddai'r Cynllun yn galluogi sefydliadau cymunedol cymwys i enwebu asedau sy'n darparu budd cymunedol i'w cynnwys ar gofrestr. Wedi hynny, pan fydd ased cofrestredig ar werth, gallai sefydliad cymunedol cymwys chwilio am gyfle i gaffael yr ased hwnnw drwy hawl cynnig cyntaf statudol. Ni fyddai'r Cynllun ei hun yn darparu cyllid ar gyfer caffael.

Bwriad y Cynllun yw cefnogi stiwardiaeth gymunedol hirdymor, gwydnwch a llesiant lleol, ac ategu'r trefniadau presennol sy'n bodoli ar gyfer trosglwyddo asedau cymunedol a chreu lleoedd drwy helpu cymunedau i gadw manteision cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd yn eu hardal.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi blaenoriaeth i'r Cynllun hwn fel un o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu ar gyfer tymor y Senedd hon a'r bwriad yw y caiff Bil ei gyflwyno fel rhan o gam cyntaf y rhaglen ddeddfwriaethol.

Ar hyn o bryd nid oes gan Gymru fframwaith statudol ar gyfer Hawl y Gymuned i Brynu sy'n debyg i'r trefniadau sydd ar waith mewn mannau eraill yn y DU. Er bod modd caffael asedau cymunedol yng Nghymru, a bod hynny wedi digwydd, gallant gymryd degawdau i ddwyn ffrwyth. Mae hyn yn golygu bod asedau gwerthfawr a allai ddarparu manteision pendant i gymuned yn cael eu colli oherwydd bod cymunedau yn cael eu cloi allan o gyfleoedd i brynu, amserlenni hirfaith, cyfraddau marchnad uchel, neu ddiffyg gwybodaeth gan grŵp cymunedol. Byddai rhoi sail statudol i hawl y gymuned i brynu yn ailgydbwyso'r pŵer rhwng cymunedau a pherchnogion asedau ac yn hyrwyddo'r defnydd o adeiladau neu dir nad ydynt yn cael eu defnyddio'n ddigonol er budd y gymuned.

3. **Pryd y dechreuodd y gwaith ar y cynnig?**

Haf 2026

4. Pa sefydliadau, grwpiau neu gymunedau y mae'r cynnig yn debygol o effeithio arnynt?

- Grwpiau a Sefydliadau Cymunedol gan gynnwys cynghorau cymuned a thref, elusennau, cymdeithasau budd cymunedol ac ati.

- Perchnogion asedau gan gynnwys Awdurdodau Lleol, cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill, perchnogion yn y sector preifat, perchnogion yn y trydydd sector
- Sefydliadau cymorth gan gynnwys Cwmpas, Ystadau Cymru, sefydliadau cymorth cymunedol
- Cymunedau a thrigolion
- Partneriaid yn y Sector Cyhoeddus

B. Yr effaith ar bobl mewn grwpiau gwarchodedig a gwaith i ymgysylltu â nhw

Nid yw diffyg tystiolaeth yn rheswm dros beidio ag asesu'r effaith ar gydraddoldeb.

OEDRAN

1. **Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Dylid cynnwys canfyddiadau unrhyw waith ymgysylltu.**

Mae tystiolaeth o ymchwiliad y Senedd yn 2022 i asedau cymunedol (Ymchwiliad i asedau cymunedol), adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen (comisiwn-asedau-cymunedol-y-grwp-gorchwyl-a-gorffen-adroddiad-terfynol.pdf), gweithdai ac arolygon i randdeiliaid yn awgrymu bod asedau cymunedol yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi pobl o bob oed. Mae canolfannau cymunedol, llyfrgelloedd, cyfleusterau ieuenctid, mannau hamdden a hybiau cymunedol yn darparu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol, dysgu, gwirfoddoli a gweithgareddau hamdden. Tynnodd rhanddeiliaid sylw at bwysigrwydd diogelu mannau sy'n cefnogi datblygiad pobl ifanc ac yn lleihau ynysigrwydd cymdeithasol ymhlith pobl hŷn.

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod cyfraddau gwirfoddoli yn amrywio ar draws grwpiau oedran. Yn gyffredinol, mae oedolion iau yn llai tebygol o gymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddoli ffurfiol nag oedolion hŷn, ac yn hanesyddol, gwelwyd rhai o'r cyfraddau gwirfoddoli uchaf yng Nghymru ymhlith pobl sydd wedi ymddeol a phobl rhwng 65 a 74 oed. (Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2016-17: Gwirfoddoli a gofalu / CGGC Gwirfoddoli gan bobl ifanc ac ysgolion yng Nghymru - Paper-1.pdf) Felly gallai perchnogaeth gymunedol a rheolaeth gymunedol dros asedau gynnig cyfleoedd i bobl hŷn ac unigolion sydd wedi ymddeol gyfrannu eu sgiliau, eu profiad a'u hamser, a chael mynediad at asedau gwerthfawr. Efallai y bydd cyfleoedd hefyd i annog mwy o gyfranogiad gan bobl iau drwy eu cynnwys wrth lywodraethu, datblygu a defnyddio asedau cymunedol.

Tynnodd yr ymatebion i'r arolwg sylw hefyd at fanteision addysg a datblygu sgiliau, yn enwedig i bobl ifanc, a allai ddeillio o dir ac adeiladau a ddelir gan y gymuned. Hefyd, cyfeiriwyd at adroddiad effaith Plunkett UK yn 2026 (Plunkett-Impact-Report-2026.pdf) sy'n dangos bod dros hanner y busnesau sy'n eiddo i'r gymuned yn cyflogi pobl ifanc rhwng 16 a 25 oed.

Mae tystiolaeth gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn dangos bod allgáu digidol yn parhau i fod yn broblem sylweddol i bobl hŷn, yn enwedig unigolion 75 oed a throsodd,

ac amcangyfrifir bod tua thraean ohonynt wedi'u hallgáu'n ddigidol. Mae pobl hŷn yn nodi anawsterau wrth gael gwasanaethau gofal iechyd, gwasanaethau bancio a gwasanaethau bob dydd eraill wrth i sefydliadau barhau i symud tuag at fodelau cyflenwi digidol yn gyntaf. Mae'r rhwystrau yn cynnwys fforddiadwyedd, diffyg sgiliau digidol a hyder, a phryderon ynghylch diogelwch ar-lein, gan greu risgiau o allgáu cymdeithasol, llai o annibyniaeth a mynediad gwaeth at wasanaethau hanfodol. (comisiynyddph.cymru - Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (2024), *Dim Mynediad: Profiadau Pobl Hŷn o Allgáu Digidol yng Nghymru).*

2. **A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?**

   Nid oes unrhyw dystiolaeth yn awgrymu y bydd y polisi yn cael effaith negyddol yn seiliedig ar oedran. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth sydd ar gael i ddangos i ba raddau y mae pobl iau yn cymryd rhan mewn mentrau perchnogaeth gymunedol a strwythurau llywodraethu yng Nghymru ar hyn o bryd yn gyfyngedig.

3. **Pwy y gwnaethoch ymgysylltu â nhw, pam a sut?**

   Ymgysylltwyd â sefydliadau cymunedol, awdurdodau lleol, ymarferwyr perchnogaeth gymunedol a sefydliadau cymorth drwy weithdai, arolygon i randdeiliaid a thrafodaethau polisi. Gofynnwyd i randdeiliaid nodi pwy sy'n cael budd o asedau cymunedol ac a fyddai unrhyw grwpiau o bosibl yn wynebu rhwystrau i fanteisio ar y Cynllun. Addaswyd yr arolwg i randdeiliaid er mwyn gofyn yn benodol am safbwyntiau pobl ifanc.

4. **Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?**

   Atgyfnerthodd tystiolaeth bwysigrwydd asedau cymunedol fel mannau ar gyfer gweithgareddau sy'n pontio'r cenedlaethau, addysg, gweithgareddau hamdden a chymorth cymdeithasol. Mae hyn wedi llywio'r ffocws ar gadw asedau sy'n darparu budd cymunedol eang a sicrhau bod meini prawf cymhwystra yn cydnabod canlyniadau cymdeithasol a chanlyniadau o ran llesiant.

5. **Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?**

   Disgwylir i'r polisi gael effaith gadarnhaol ar bobl iau a phobl hŷn drwy helpu i gadw cyfleusterau a gwasanaethau sy'n cefnogi cyfleoedd dysgu, hamdden, cyfranogiad cymunedol a chysylltiadau cymdeithasol. Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol uniongyrchol.

6. **Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i wella'r canlyniadau cadarnhaol neu leihau'r effeithiau negyddol?**

   Bydd canllawiau a gweithgareddau ymgysylltu yn annog grwpiau cymunedol i ystyried anghenion gwahanol grwpiau oedran wrth ddatblygu cynigion budd cymunedol. Bydd cyfleoedd hefyd yn cael eu hystyried i annog pobl iau a phobl hŷn i gymryd rhan mewn mentrau perchnogaeth a llywodraethu cymunedol.

   Wrth i'r polisi ddatblygu ymhellach, byddwn yn parhau i ofyn am safbwyntiau er mwyn nodi a allai unrhyw gymunedau wynebu rhwystrau i fanteisio ar y Cynllun a byddwn yn cymryd camau i ymdrin â'r rhwystrau hyn.

Cydnabyddir bod yr allgáu digidol a wynebir gan bobl hŷn yn rhwystr posibl, ac y gallai fod angen i ni ddarparu cymorth ychwanegol os bydd prosesau yn dibynnu ar fynediad digidol.

ANABLEDD

7. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Dylid cynnwys canfyddiadau unrhyw waith ymgysylltu.

Tynnodd adborth gan randdeiliaid sylw at y ffaith bod asedau cymunedol yn aml yn darparu gwasanaethau a rhwydweithiau cymorth ac yn cynnig cyfleoedd i bobl anabl gymryd rhan. Mae hyn yn adlewyrchu tystiolaeth ehangach yng Nghymru bod pobl anabl yn parhau i wynebu rhwystrau sy'n eu hatal rhag cymryd rhan mewn bywyd cymunedol a chael gwasanaethau. Mae gwaith ymchwil gan Lywodraeth Cymru wedi tynnu sylw at bwysigrwydd amgylcheddau hygyrch a chynhwysol wrth alluogi pobl anabl i fyw'n annibynnol a chymryd rhan lawn yn eu cymunedau. (Ffynonellau tystiolaeth: Drws ar Glo (Llywodraeth Cymru, 2021 - Drws ar glo: datgloi bywydau a hawliau pobl anabl yng Nghymru ar ôl COVID-19 | LLYW.CYMRU; Argymhellion y Tasglu Hawliau Pobl Anabl 2025 - Argymhellion y Tasglu Hawliau Pobl Anabl | LLYW.CYMRU; Fframwaith Gweithredu ar Fyw'n Annibynnol - Gweithredu ar anabledd: yr hawl i fyw'n annibynnol – fframwaith a'r cynllun gweithredu | LLYW.CYMRU).

Mae tystiolaeth gan sefydliadau perchnogaeth gymunedol yn awgrymu y gall perchnogaeth dan arweiniad y gymuned greu cyfleoedd i wella hygyrchedd a chynhwysiant cyfleusterau lleol. Nododd ein harolwg i randdeiliaid bobl anabl, gan gynnwys pobl ag anableddau corfforol, amhariadau ar y synhwyrau, anableddau dysgu a phobl niwrowahanol, fel grwpiau y dylid rhoi ystyriaeth benodol i'w hanghenion wrth ddylunio'r Cynllun a'i roi ar waith. Tynnodd yr ymatebwyr sylw at bwysigrwydd asedau, gwybodaeth a phrosesau hygyrch, gan gydnabod y gallai fod angen cymorth ychwanegol ar rai unigolion i enwebu asedau neu gymryd rhan yn y Cynllun.

8. A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?

Mae'r dystiolaeth sydd ar gael ar nodweddion hygyrchedd penodol asedau y gellir eu cofrestru o dan y Cynllun yn gyfyngedig. Dim ond yn ystod y cam gweithredu y byddai rhagor o wybodaeth ar gael.

9. Pwy y gwnaethoch ymgysylltu â nhw, pam a sut?

Ymgysylltwyd â sefydliadau cymunedol, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid yn y trydydd sector drwy weithdai ac arolygon. Gofynnwyd am safbwyntiau ynghylch mynediad at y Cynllun a chyfranogiad ynddo, ac rydym yn parhau i ofyn am safbwyntiau.

10. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

Tynnodd y dystiolaeth sylw at bwysigrwydd sicrhau bod y Cynllun yn hygyrch a bod asedau cymunedol yn parhau i gefnogi pobl anabl. Rhoddir ystyriaeth i ganllawiau, gohebiaeth a threfniadau gweithredu hygyrch.

11. Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?

Disgwylir i'r polisi gael effaith gadarnhaol drwy helpu i ddiogelu asedau sy'n darparu gwasanaethau, gweithgareddau a chymorth cymdeithasol i bobl anabl. Gallai cadw cyfleusterau cymunedol helpu i gefnogi cyfranogiad, cynhwysiant a byw'n annibynnol. Er na nodwyd unrhyw effeithiau negyddol uniongyrchol, gallai rhwystrau godi os na chaiff gwybodaeth, canllawiau, prosesau enwebu neu weithgareddau ymgysylltu eu cynllunio i fod yn hygyrch.

12. Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i wella'r canlyniadau cadarnhaol neu leihau'r effeithiau negyddol?

Bydd y cam gweithredu yn ceisio sicrhau bod gwybodaeth, canllawiau a deunyddiau ymgysylltu yn hygyrch.

Bydd sefydliadau cymunedol cymwys yn gallu mynegi diddordeb a defnyddio cyfnod gwarchodedig i gynnal gwaith diwydrwydd dyladwy, paratoi cynlluniau busnes (a fyddai'n cynnwys ystyried hygyrchedd) a sicrhau cyllid.

Bydd cyfleoedd i gefnogi hygyrchedd a chynhwysiant drwy reoli a datblygu asedau cymunedol yn parhau i gael eu hystyried.

Wrth i'r polisi ddatblygu ymhellach, byddwn yn parhau i ofyn am safbwyntiau er mwyn nodi a allai unrhyw gymunedau wynebu rhwystrau i fanteisio ar y Cynllun a byddwn yn cymryd camau i ymdrin â'r rhwystrau hyn.

HIL

13. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Dylid cynnwys canfyddiadau unrhyw waith ymgysylltu.

Tynnodd waith ymgysylltu â rhanddeiliaid sylw at y rôl y gall asedau cymunedol ei chwarae wrth gefnogi cymunedau amrywiol drwy weithgareddau diwylliannol, gwasanaethau cynghori, digwyddiadau cymunedol a chyfleoedd ar gyfer cyfranogiad cymdeithasol. Mae hyn yn adlewyrchu tystiolaeth ehangach Llywodraeth Cymru y gall cymunedau ethnig lleiafrifol wynebu rhwystrau sy'n eu hatal rhag cyfranogi a manteisio ar gyfleoedd a gwasanaethau, ac y gall mannau cymunedol cynhwysol chwarae rhan bwysig wrth gefnogi cydlyniant a llesiant cymunedol. Mae tystiolaeth gan sefydliadau perchnogaeth gymunedol yn awgrymu hefyd y gall perchnogaeth dan arweiniad y gymuned helpu cymunedau i lywio cyfleusterau lleol i ddiwallu anghenion lleol.

Nododd ein harolwg i randdeiliaid gymunedau ethnig lleiafrifol fel grwpiau y dylid rhoi ystyriaeth benodol i'w hanghenion wrth ddylunio'r Cynllun a'i roi ar waith. Tynnodd yr ymatebwyr sylw at bwysigrwydd mannau cymunedol diogel, hygyrch a chroesawgar a nodwyd y gallai rhai grwpiau wynebu rhwystrau oherwydd gwahanol lefelau o gapasiti sefydliadol, ymwybyddiaeth a mynediad at adnoddau.

(Ffynonellau: Monitor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2023: A yw Cymru'n Decach? | EHRC; Arolwg Cenedlaethol Cymru - Arolwg Cenedlaethol Cymru | LLYW.CYMRU; Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol: diweddariad 2024 | LLYW.CYMRU)

14. A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?

Mae'r dystiolaeth ar lefelau cyfranogi presennol mewn gweithgareddau perchnogaeth gymunedol gan wahanol grwpiau ethnig yng Nghymru yn gyfyngedig. Bydd yr effaith ar gymunedau penodol yn dibynnu ar amgylchiadau lleol a'r niferoedd sy'n defnyddio'r Cynllun.

15. Pwy y gwnaethoch ymgysylltu â nhw, pam a sut?

Ymgysylltwyd â rhanddeiliaid drwy weithdai ac arolygon ac roedd hyn yn cynnwys sefydliadau sydd â diddordeb mewn cydraddoldeb, datblygu cymunedol a pherchnogaeth gymunedol. Fel rhan o'r gwaith ymgysylltu, gofynnwyd am safbwyntiau ynghylch pwy y byddai'r cynigion o fudd iddynt, neu bwy allai wynebu rhwystrau.

16. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

Tynnodd y dystiolaeth a nodwyd uchod sylw at bwysigrwydd sicrhau y gall amrywiaeth eang o gymunedau fanteisio ar y Cynllun ac y caiff rhwystrau i ymwybyddiaeth a chyfranogiad eu lleihau i'r eithaf drwy ganllawiau a phrosesau allgymorth.

17. Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?

Disgwylir i'r polisi gael effaith gadarnhaol drwy helpu i gadw mannau cymunedol sy'n cefnogi gweithgareddau diwylliannol, gwasanaethau cynghori, rhwydweithiau cymdeithasol a chydlyniant cymunedol. Gall yr asedau hyn fod yn arbennig o bwysig i rai cymunedau ethnig lleiafrifol wrth gynnig cyfleoedd i gyfranogi a chysylltu. Ni nodwyd unrhyw effeithiau andwyol uniongyrchol, er y gallai rhai cymunedau wynebu rhwystrau ymarferol a fyddai'n eu hatal rhag cyfranogi os na roddir ystyriaeth ddigonol i ymwybyddiaeth, hygyrchedd neu anghenion cymorth.

18. Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i wella'r canlyniadau cadarnhaol neu leihau'r effeithiau negyddol?

Bydd gweithgarwch cyfathrebu ac ymgysylltu yn anelu at gyrraedd amrywiaeth eang o gymunedau. Wrth i'r polisi ddatblygu ymhellach, byddwn yn parhau i ofyn am safbwyntiau er mwyn nodi a allai unrhyw gymunedau wynebu rhwystrau i fanteisio ar y Cynllun a byddwn yn cymryd camau i ymdrin â'r rhwystrau hyn.

CREFYDD, CRED NEU DDIFFYG CRED

19. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Dylid cynnwys canfyddiadau unrhyw waith ymgysylltu.

Mae gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid yn dangos bod asedau cymunedol yn cefnogi amrywiaeth eang o weithgareddau sy'n gysylltiedig â ffydd, cred, diwylliant a chyfranogiad cymunedol. Caiff cyfleusterau cymunedol eu defnyddio'n aml gan grwpiau a sefydliadau ffydd sy'n gwasanaethu pobl o wahanol gefndiroedd crefyddol ac anghrefyddol. Mae tystiolaeth ehangach ar gydlyniant a chyfranogiad cymunedol yn awgrymu y gall cyfleusterau lleol hygyrch chwarae rhan bwysig wrth gefnogi cysylltiadau cymdeithasol, mynegiant diwylliannol a gweithgareddau cymunedol ar draws cymunedau amrywiol.

(Ffynonellau: Cyfrifiad - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol; Monitor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2023: A yw Cymru'n Decach?; Arolwg Cenedlaethol Cymru)

20. A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?

Mae'r dystiolaeth sydd ar gael ar y nifer penodol o asedau neu'r math o asedau a ddefnyddir ar hyn o bryd gan grwpiau ffydd neu gred y gallai'r cynigion effeithio arnynt yn gyfyngedig. Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth o effeithiau andwyol.

21. Pwy y gwnaethoch ymgysylltu â nhw, pam a sut?

Ymgysylltwyd â sefydliadau cymunedol, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid yn y trydydd sector drwy weithdai ac arolygon. Rhoddodd hyn gyfleoedd i randdeiliaid dynnu sylw at effeithiau posibl ar wahanol grwpiau a chymunedau.

22. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi atgyfnerthu pwysigrwydd sicrhau bod y Cynllun yn parhau i fod yn gynhwysol a'i fod yn canolbwyntio ar fudd cymunedol ni waeth beth fo crefydd, cred neu ddiffyg cred unigolion.

23. Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?

Disgwylir i'r polisi gael effaith gadarnhaol drwy helpu cymunedau i gadw asedau sy'n cefnogi gweithgareddau sy'n seiliedig ar ffydd, digwyddiadau diwylliannol a defnydd ehangach gan y gymuned. Gall y cyfleusterau hyn gynnig cyfleoedd pwysig i gyfranogi ac ar gyfer cysylltiad cymdeithasol a chydlyniant cymunedol. Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol, ac mae'r cynigion yr un mor berthnasol ni waeth beth fo crefydd, cred neu ddiffyg cred unigolion.

24. Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i wella'r canlyniadau cadarnhaol neu leihau'r effeithiau negyddol?

Caiff y Cynllun ei roi ar waith ar sail anwahaniaethol. Bydd canllawiau a gwaith ymgysylltu yn annog cyfranogiad gan gymunedau o wahanol ffydd, credoau a chefndiroedd di-gred er mwyn sicrhau cyfleoedd cyfartal o dan y Cynllun. Wrth i'r polisi ddatblygu ymhellach, byddwn yn parhau i ofyn am safbwyntiau er mwyn nodi a allai unrhyw gymunedau wynebu rhwystrau i fanteisio ar y Cynllun a byddwn yn cymryd camau i ymdrin â'r rhwystrau hyn.

RHYW

25. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Dylid cynnwys canfyddiadau unrhyw waith ymgysylltu.

Mae tystiolaeth o'r gweithdai a'r arolygon i randdeiliaid, Adroddiad Terfynol Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Comisiwn Asedau Cymunedol (comisiwn-asedau-cymunedol-y-grwp-gorchwyl-a-gorffen-adroddiad-terfynol.pdf) ac ymchwiliad y Senedd i asedau cymunedol (Ymchwiliad i asedau cymunedol) yn dangos bod asedau cymunedol yn cefnogi gweithgareddau gan gynnwys gwirfoddoli, cyfleoedd hamdden, gwasanaethau

lleol a chyfranogiad cymunedol. Tynnodd rhanddeiliaid sylw hefyd at bwysigrwydd llywodraethu cynrychioliadol a sicrhau nad yw penderfyniadau yn seiliedig ar nifer bach o bobl yn unig. Mae cyflwyniad Iechyd Cyhoeddus Cymru i Ymchwiliad y Senedd i Asedau Cymunedol yn nodi grymuso cymunedol, cyfranogiad, cydberthnasau cymdeithasol a mwy o reolaeth dros benderfyniadau sy'n effeithio ar fywydau pobl fel ffactorau sy'n berthnasol i lesiant. Fodd bynnag, nid yw'r dystiolaeth a adolygwyd yn nodi effaith wahaniaethol benodol ar sail rhyw. Mae tystiolaeth sy'n ymwneud â pherchnogaeth gymunedol yn awgrymu y gallai argaeledd gwirfoddolwyr, capasiti llywodraethu a'r amser sydd ar gael ddylanwadu ar gyfranogiad, er bod yr effeithiau yn ôl rhyw yn ansicr.

26. A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?

Mae'r dystiolaeth ar gyfranogiad mewn gweithgareddau perchnogaeth gymunedol a llywodraethu asedau yn ôl rhyw yng Nghymru yn gyfyngedig. Nid yw'n glir chwaith a allai cyfrifoldebau gofalu, patrymau gwaith neu wahaniaethau o ran yr amser sydd ar gael effeithio ar gyfranogiad. Mae'n bosibl y daw rhagor o dystiolaeth i'r amlwg drwy'r ymgynghoriad, y gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r broses barhaus o ddatblygu polisi.

27. Pwy y gwnaethoch ymgysylltu â nhw, pam a sut?

Cynhaliwyd y gwaith ymgysylltu drwy weithdai i randdeiliaid, arolygon a thrafodaethau â sefydliadau cymunedol, awdurdodau lleol a chyrff cymorth. Gofynnwyd i gyfranogwyr pwy y byddai'r Cynllun o bosibl o fudd iddynt, pwy fyddai o bosibl yn wynebu rhwystrau a pha gymorth y gallai fod ei angen ar gymunedau. Ni fwriadwyd i'r gwaith ymgysylltu ddarparu dadansoddiad cynrychioliadol o safbwyntiau yn ôl rhyw.

28. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

Mae'r dystiolaeth a gafwyd drwy'r gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi atgyfnerthu pwysigrwydd gofynion cyfranogi cymesur, llywodraethu cymunedol cynrychioliadol ac ymgysylltu hygyrch. Mae trefniadau cymhwystra, llywodraethu a chymorth manwl yn destun ymgynghori o hyd.

29. Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?

Ni nodwyd unrhyw effaith uniongyrchol yn seiliedig ar ryw. Gallai'r cynigion helpu i gadw asedau sy'n cefnogi cyfleoedd gwirfoddoli, cyfleoedd hamdden, gweithgareddau cymunedol a gwasanaethau lleol neu eu defnyddio at ddiben gwahanol.

Fodd bynnag, gallai gwahaniaethau o ran yr amser sydd ar gael, cyfrifoldebau gofalu neu fynediad at rwydweithiau cymunedol sefydledig effeithio ar lefelau cyfranogi. Ar hyn o bryd nid oes digon o dystiolaeth i benderfynu a fyddai effaith anghymesur ar y naill ryw neu'r llall.

30. Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i wella'r canlyniadau cadarnhaol neu leihau'r effeithiau negyddol?

Caiff yr ymatebion i'r ymgynghoriad eu hadolygu i weld a oes tystiolaeth o effeithiau gwahaniaethol. Rhoddir ystyriaeth bellach i ofynion ymgeisio cymesur, ymgysylltiad cynhwysol a phrosesau ar gyfer monitro cyfranogiad, yn amodol ar ddyluniad terfynol y Cynllun.

AILBENNU RHYWEDD

31. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Dylid cynnwys canfyddiadau unrhyw waith ymgysylltu.

Mae tystiolaeth o'r gweithdai a'r arolygon i randdeiliaid, Adroddiad Terfynol Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Comisiwn Asedau Cymunedol (comisiwn-asedau-cymunedol-y-grwp-gorchwyl-a-gorffen-adroddiad-terfynol.pdf) ac ymchwiliad y Senedd i asedau cymunedol (Ymchwiliad i asedau cymunedol) yn dangos y gall asedau cymunedol ddarparu lleoedd ar gyfer gweithgareddau cymunedol, cymorth, diwylliant a chyfranogiad cymdeithasol. Nid yw'r dystiolaeth a adolygwyd wedi nodi effaith sy'n gysylltiedig yn benodol ag ailbennu rhywedd.

32. A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?

Mae'r dystiolaeth ar lefelau cyfranogi mewn gweithgareddau perchnogaeth gymunedol gan bobl â'r nodwedd warchodedig hon neu i ddangos a ydynt yn wynebu rhwystrau penodol i gyfranogi yn gyfyngedig. Mae'n bosibl y daw rhagor o dystiolaeth i'r amlwg drwy'r ymgynghoriad.

33. Pwy y gwnaethoch ymgysylltu â nhw, pam a sut?

Cynhaliwyd y gwaith ymgysylltu drwy weithdai i randdeiliaid, arolygon a thrafodaethau â sefydliadau cymunedol, awdurdodau lleol a chyrff cymorth. Ystyriodd y gwaith ymgysylltu hwn fuddiolwyr, rhwystrau ac anghenion cymorth posibl. Ni chynhaliwyd unrhyw waith ymgysylltu wedi'i dargedu'n benodol â phobl â'r nodwedd warchodedig hon na sefydliadau cynrychioliadol.

34. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd drwy'r gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi atgyfnerthu pwysigrwydd dulliau ymgysylltu cynhwysol â'r gymuned, proses dryloyw ar gyfer gwneud penderfyniadau a chyfranogiad hygyrch. Bydd y materion hyn yn parhau i gael eu hystyried wrth i drefniadau cymhwystra, llywodraethu a gweithredu gael eu datblygu.

35. Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?

Ni nodwyd unrhyw effaith wahaniaethol uniongyrchol mewn perthynas ag ailbennu rhywedd. Gallai'r cynigion helpu i gadw mannau cymunedol cynhwysol a ddefnyddir ar gyfer gweithgareddau cymunedol a chymorth neu helpu i'w defnyddio at ddiben gwahanol.

Fodd bynnag, byddai'r effaith yn dibynnu ar yr asedau dan sylw, eu defnydd yn y dyfodol a chynwysoldeb y broses o wneud penderfyniadau cymunedol.

36. Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i wella'r canlyniadau cadarnhaol neu leihau'r effeithiau negyddol?

Caiff yr ymatebion i'r ymgynghoriad eu hadolygu i weld a oes tystiolaeth berthnasol. Rhoddir ystyriaeth i ganllawiau a gwaith ymgysylltu cynhwysol ac ystyrir hefyd a oes angen rhagor o dystiolaeth wedi'i thargedu cyn diwygio'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb.

CYFEIRIADEDD RHYWIOL

37. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Dylid cynnwys canfyddiadau unrhyw waith ymgysylltu.

Mae tystiolaeth o'r gweithdai a'r arolygon i randdeiliaid, Adroddiad Terfynol Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Comisiwn Asedau Cymunedol (comisiwn-asedau-cymunedol-y-grwp-gorchwyl-a-gorffen-adroddiad-terfynol.pdf) ac ymchwiliad y Senedd i asedau cymunedol (Ymchwiliad i asedau cymunedol) yn dangos y gall asedau cymunedol gefnogi cyfranogiad cymdeithasol, gweithgareddau diwylliannol, grwpiau cymunedol a mynediad at wasanaethau lleol. Nid yw'r dystiolaeth a adolygwyd wedi nodi effaith sy'n gysylltiedig yn benodol â chyfeiriadedd rhywiol.

38. A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?

Mae'r dystiolaeth ar lefelau cyfranogi mewn gweithgareddau perchnogaeth gymunedol yn ôl cyfeiriadedd rhywiol neu'r dystiolaeth i ddangos a yw grwpiau penodol yn wynebu rhwystrau wrth ddefnyddio asedau cymunedol neu strwythurau llywodraethu yn gyfyngedig. Mae'n bosibl y daw rhagor o dystiolaeth i'r amlwg drwy'r ymgynghoriad.

39. Pwy y gwnaethoch ymgysylltu â nhw, pam a sut?

Cynhaliwyd y gwaith ymgysylltu drwy weithdai i randdeiliaid, arolygon a thrafodaethau â sefydliadau cymunedol, awdurdodau lleol, busnesau a chyrff cymorth. Ni chynhaliwyd unrhyw waith ymgysylltu wedi'i dargedu'n benodol â sefydliadau cynrychioliadol ar gyfer y nodwedd warchodedig hon.

40. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd drwy'r gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi atgyfnerthu pwysigrwydd budd cymunedol cynhwysol, llywodraethu cynrychioliadol a chyfranogiad hygyrch. Bydd y materion hyn yn parhau i gael eu hystyried wrth i'r Cynllun manwl gael ei ddatblygu.

41. Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?

Ni nodwyd unrhyw effaith wahaniaethol uniongyrchol mewn perthynas â chyfeiriadedd rhywiol. Gallai'r cynigion helpu i gadw mannau cymunedol a ddefnyddir ar gyfer cyfranogiad cymdeithasol, gweithgareddau cymunedol a chymorth lleol neu helpu i'w defnyddio at ddiben gwahanol.

Byddai'r effaith yn dibynnu ar yr asedau dan sylw, eu defnydd yn y dyfodol ac a yw'r broses o wneud penderfyniadau cymunedol yn gynhwysol.

42. Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i wella'r canlyniadau cadarnhaol neu leihau'r effeithiau negyddol?

Caiff yr ymatebion i'r ymgynghoriad eu hadolygu i weld a oes tystiolaeth o effeithiau gwahaniaethol. Rhoddir ystyriaeth i waith ymgysylltu a chanllawiau cynhwysol ac i unrhyw angen am ragor o dystiolaeth wedi'i thargedu.

BEICHIOGRWYDD A MAMOLAETH

43. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Dylid cynnwys canfyddiadau unrhyw waith ymgysylltu.

Mae tystiolaeth o'r gweithdai a'r arolygon i randdeiliaid, Adroddiad Terfynol Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Comisiwn Asedau Cymunedol (comisiwn-asedau-cymunedol-y-grwp-gorchwyl-a-gorffen-adroddiad-terfynol.pdf) ac ymchwiliad y Senedd i asedau cymunedol (Ymchwiliad i asedau cymunedol) yn dangos y gall asedau cymunedol gefnogi gweithgareddau i deuluoedd, cyfleoedd hamdden, cyfranogiad cymdeithasol a mynediad at gyfleusterau a gwasanaethau lleol. Nododd rhanddeiliaid ganolfannau

cymunedol, cyfleusterau i deuluoedd a hybiau cymunedol fel asedau a allai ddarparu budd cymunedol. Nid yw'r dystiolaeth yn cadarnhau effeithiau penodol ar feichiogrwydd na mamolaeth.

44. A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?

Mae'r dystiolaeth ar brofiadau penodol pobl feichiog a phobl ar absenoldeb mamolaeth mewn perthynas â pherchnogaeth gymunedol yn gyfyngedig. Nid yw'n glir chwaith a allai cyfrifoldebau gofalu, gofal plant, hygyrchedd, trafnidiaeth neu amseru gwaith ymgysylltu effeithio ar gyfranogiad.

45. Pwy y gwnaethoch ymgysylltu â nhw, pam a sut?

Cynhaliwyd y gwaith ymgysylltu drwy weithdai i randdeiliaid, arolygon a thrafodaethau â sefydliadau cymunedol, awdurdodau lleol a chyrff cymorth. Gofynnwyd i gyfranogwyr am fudd cymunedol, rhwystrau i gyfranogiad a'r mathau o asedau y mae cymunedau yn eu gwerthfawrogi. Ni chynhaliwyd unrhyw waith ymgysylltu wedi'i dargedu'n benodol â phobl feichiog, pobl ar absenoldeb mamolaeth na sefydliadau cynrychioliadol.

46. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd drwy'r gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi atgyfnerthu pwysigrwydd gwaith ymgysylltu hygyrch a chydnabod budd cymunedol posibl asedau a ddefnyddir gan deuluoedd. Mae'r trefniadau budd cymunedol a'r trefniadau gweithredu manwl yn destun ymgynghori o hyd.

47. Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?

Gallai'r cynigion gael effeithiau cadarnhaol lle byddant yn helpu i gadw asedau a ddefnyddir ar gyfer gweithgareddau i deuluoedd, gwasanaethau lleol a chyfranogiad cymdeithasol neu lle byddant yn helpu i'w defnyddio at ddiben gwahanol.

Ni nodwyd unrhyw effaith andwyol uniongyrchol. Fodd bynnag, gallai fod effaith ar lefelau cyfranogi os na fydd y prosesau ymgysylltu ac ymgeisio yn ystyried hygyrchedd, cyfrifoldebau gofalu neu'r amser sydd ar gael.

48. Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i wella'r canlyniadau cadarnhaol neu leihau'r effeithiau negyddol?

Caiff yr ymatebion i'r ymgynghoriad eu hadolygu i weld a oes tystiolaeth berthnasol. Caiff dulliau ymgysylltu hygyrch a phrosesau cymesur eu hystyried wrth i'r Cynllun terfynol gael ei ddatblygu.

PRIODAS A PHARTNERIAETH SIFIL

49. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Dylid cynnwys canfyddiadau unrhyw waith ymgysylltu.

Nid yw tystiolaeth o'r gweithdai a'r arolygon i randdeiliaid, Adroddiad Terfynol Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Comisiwn Asedau Cymunedol (comisiwn-asedau-cymunedol-y-grwp-gorchwyl-a-gorffen-adroddiad-terfynol.pdf) ac ymchwiliad y Senedd i asedau cymunedol (Ymchwiliad i asedau cymunedol) wedi nodi effaith sy'n gysylltiedig yn benodol â statws o ran priodas neu bartneriaeth sifil. Mae'r cynigion yn ymwneud â chymhwystra a gweithgareddau sefydliadau cymunedol yn hytrach na statws unigolyn o ran priodas neu bartneriaeth sifil.

50. A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?

Mae'r dystiolaeth ar statws o ran priodas neu bartneriaeth sifil a chyfranogiad mewn gweithgareddau perchnogaeth gymunedol yn gyfyngedig. Nid oes unrhyw dystiolaeth ar hyn o bryd yn awgrymu y byddai'r statws hwn yn effeithio ar gymhwystra na'r gallu i fanteisio ar y Cynllun arfaethedig.

51. Pwy y gwnaethoch ymgysylltu â nhw, pam a sut?

Cynhaliwyd y gwaith ymgysylltu drwy weithdai i randdeiliaid, arolygon a thrafodaethau â sefydliadau cymunedol, awdurdodau lleol a chyrff cymorth. Ni chynhaliwyd unrhyw waith ymgysylltu wedi'i dargedu'n benodol mewn perthynas â phriodas neu bartneriaeth sifil.

52. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

Nid yw'r dystiolaeth a nodwyd uchod yn dangos bod angen newid polisi yn benodol mewn perthynas â phriodas neu bartneriaeth sifil. Bwriedir i'r cynigion sy'n dod i'r amlwg weithredu ni waeth beth fo'r statws hwn.

53. Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?

Ni nodwyd unrhyw effaith gadarnhaol na negyddol uniongyrchol mewn perthynas â phriodas neu bartneriaeth sifil. Ni chynigir unrhyw ofyniad cymhwystra yn seiliedig ar y statws hwn ar hyn o bryd.

54. Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i wella'r canlyniadau cadarnhaol neu leihau'r effeithiau negyddol?

Caiff yr ymatebion i'r ymgynghoriad eu hadolygu i weld a oes unrhyw dystiolaeth berthnasol. Ni nodwyd bod angen unrhyw gamau lliniaru penodol ar hyn o bryd.

C. Cyhoeddi a Monitro

1. A yw'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb hwn yn barod i'w gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru?

Ie

2. **Os na allwch gyhoeddi'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb, esboniwch pam.**

Dd/G

3. **Ai diweddariad o fersiwn a gyhoeddwyd yn flaenorol yw'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb hwn?**

Na

4. Sut fyddwch chi'n monitro ac yn gwerthuso cynnydd o ran y materion cydraddoldeb a nodwyd yn yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb hwn?

Caiff yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb ei adolygu ar ôl yr ymgynghoriad a'i ddiweddaru os caiff deddfwriaeth ei datblygu. Caiff yr ymatebion i'r ymgynghoriad eu dadansoddi i weld a oes tystiolaeth o effeithiau gwahaniaethol, rhwystrau i gyfranogiad a chamau lliniaru awgrymedig.

Yn amodol ar ddyluniad terfynol y Cynllun a gofynion diogelu data, gallai gwaith monitro yn y dyfodol ystyried y canlynol:

- dosbarthiad daearyddol enwebiadau, cofrestriadau a chaffaeliadau;
- y mathau o sefydliadau sy'n cymryd rhan;
- defnyddio llwybrau nad ydynt yn ddigidol a llwybrau hygyrch;
- faint o bobl sy'n gofyn am gyngor a chymorth;
- y rhesymau pam nad yw sefydliadau yn bwrw ati;
- enwebiadau cychwynnol o gymharu â chofrestriadau wedi'u cwblhau;
- hysbysiadau gwerthu;
- datganiadau o ddiddordeb;
- symud ymlaen i statws y prynwr a ffefrir;
- caffaeliadau wedi'u cwblhau;
- rhesymau dros dynnu'n ôl a rhesymau dros beidio â symud ymlaen ar bob cam;
- a yw gofynion sy'n ailadrodd yn creu beichiau anghymesur;
- y defnydd o sianeli digidol a sianeli nad ydynt yn ddigidol;
- adborth, cwynion, adolygiadau ac apeliadau sy'n ymwneud â hygyrchedd;
- tystiolaeth o rwystrau gwahaniaethol sy'n effeithio ar grwpiau gwarchodedig.

Ni fydd y Cynllun yn casglu data ar nodweddion gwarchodedig oni bai bod hynny'n angenrheidiol, yn gymesur ac wedi'i ategu gan sail gyfreithlon briodol. Caiff dulliau amgen, gan gynnwys gwaith ymchwil cyfnodol ac adborth gwirfoddol, eu hystyried.

Bydd y trefniadau monitro yn gymesur â'r Cynllun terfynol a'r wybodaeth y gellir ei chasglu o safbwynt cyfreithiol ac ymarferol. Caiff yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb ei adolygu cyn cyflwyno unrhyw Fil ac eto wrth i drefniadau gweithredu gael eu datblygu.

D. Awdurdodiad

Datganiad gan y Dirprwy Gyfarwyddwr / Uwch-swyddog Cyfrifol:

Rwy'n fodlon bod effaith y cynnig wedi'i hasesu a'i chofnodi'n briodol yn unol â'r canllawiau, a bod y gofyniad i'w gyhoeddi wedi'i ystyried yn briodol.

Llofnod: Richard Baker

Adran: Y Gyfarwyddiaeth Tai ac Adfywio, Is-adran Lle

Dyddiad: 09 Tachwedd 2026

2. ASESIAD EFFAITH HAWLIAU PLANT

1. Amcanion polisi

- **Beth yw'r cynnig rydych yn cynnal asesiad effaith ar ei gyfer?**

Nod Cynllun Hawl y Gymuned i Brynu (y Cynllun) yw cryfhau gallu cymunedau i lywio dyfodol asedau sy'n bwysig i bobl leol. Byddai'r Cynllun yn darparu sail statudol i alluogi grwpiau cymunedol cymwys i geisio caffael asedau sy'n eiddo i'r cyhoedd ac asedau sy'n eiddo preifat sy'n darparu budd cymunedol, gan gefnogi stiwardiaeth gymunedol hirdymor, gwydnwch a llesiant lleol. Bwriedir iddo ategu'r trefniadau sy'n bodoli eisoes ar gyfer trosglwyddo asedau cymunedol a chreu lleoedd drwy ehangu'r amrywiaeth o asedau y gall cymunedau eu defnyddio a helpu i gadw manteision cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd o fewn cymunedau. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi blaenoriaeth i'r Cynllun hwn fel un o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu ar gyfer tymor y Senedd hon a'r bwriad yw y caiff Bil ei gyflwyno fel rhan o gam cyntaf y rhaglen ddeddfwriaethol.

Mae Cymru ar ei hôl hi o gymharu â gwledydd eraill y DU o ran darparu sail statudol i grwpiau cymunedol gaffael a defnyddio asedau er budd trigolion lleol. Er bod modd caffael asedau cymunedol yng Nghymru, a bod hynny wedi digwydd, gallant gymryd degawdau i ddwyn ffrwyth. Mae hyn yn golygu bod asedau gwerthfawr a allai ddarparu manteision pendant i gymuned yn cael eu colli oherwydd bod cymunedau yn cael eu cloi allan o gyfleoedd i brynu, amserlenni hirfaith, cyfraddau marchnad uchel, neu ddiffyg gwybodaeth gan grŵp cymunedol. Byddai rhoi sail statudol i hawl y gymuned i brynu yn ailgydbwyso'r pŵer rhwng cymunedau a pherchnogion asedau ac yn hyrwyddo'r defnydd o adeiladau neu dir nad ydynt yn cael eu defnyddio'n ddigonol er budd y gymuned.

Er nad yw Cynllun Hawl y Gymuned i Brynu arfaethedig wedi'i dargedu'n benodol at blant a phobl ifanc, mae llawer o asedau a gaiff eu diogelu neu eu caffael o bosibl drwy'r Cynllun yn cael eu defnyddio'n rheolaidd gan blant, pobl ifanc a theuluoedd, gan gynnwys parciau, llyfrgelloedd, cyfleusterau chwaraeon, canolfannau cymunedol, lleoliadau diwylliannol a mannau gwyrdd. Felly gallai'r Cynllun gael effeithiau cadarnhaol anuniongyrchol ar blant a phobl ifanc drwy ddiogelu mynediad at gyfleusterau sy'n cefnogi cyfleoedd chwarae, cyfleoedd hamdden, llesiant, cyfleoedd dysgu, cysylltiad cymdeithasol a chyfleoedd i gyfranogi ym mywyd y gymuned. Fodd bynnag, mae risg bosibl hefyd, lle bydd perchnogaeth gymunedol yn arwain at newid o ran defnydd neu o ran y gwasanaethau a ddarperir, na fydd anghenion plant a phobl ifanc bob amser yn cael blaenoriaeth. Ystyrir yr effeithiau hyn ymhellach yn yr asesiad hwn.

Dylid darllen yr Asesiad Effaith Hawliau Plant hwn ochr yn ochr â'r cynigion a nodir yn y ddogfen ymgynghori.

2. Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

- **Pa waith ymchwil a data ar blant a phobl ifanc sydd eisoes ar gael i lywio eich polisi penodol? Mae'n bosibl y bydd eich amcan polisi yn effeithio ar feysydd polisi eraill – bydd trafodaethau â thimau polisi eraill yn rhan bwysig o'r broses asesu effaith gan sicrhau eich bod wedi casglu amrywiaeth o wybodaeth a thystiolaeth.**

Er nad yw'r Cynllun wedi'i dargedu'n benodol at blant a phobl ifanc, mae llawer o asedau cymunedol yn cael eu defnyddio'n rheolaidd gan blant a theuluoedd, megis parciau, canolfannau cymunedol, llyfrgelloedd, cyfleusterau chwaraeon a lleoliadau diwylliannol a allai ddod o dan gwmpas y Cynllun. Felly, rhoddwyd ystyriaeth i'r heriau posibl sy'n wynebu

pobl ifanc y tynnwyd sylw atynt yn ddiweddar drwy adroddiadau cyhoeddedig, a lle gallai'r Cynllun gefnogi rhai o'r camau lliniaru.

Cynhaliodd Iechyd Cyhoeddus Cymru waith ymchwil (gan gyflwyno adroddiad arno ym mis Mai 2026) ar iechyd meddwl babanod, plant a phobl ifanc yng Nghymru a daeth i'r casgliad y bu cynnydd mewn achosion o lesiant meddwl gwael a chyflyrau iechyd meddwl ymhlith babanod, plant a phobl ifanc yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan awgrymu y gallai anghydraddoldebau cymdeithasol ac anweithgarwch corfforol fod yn un ffactor. Un argymhelliad i gefnogi camau gweithredu cadarnhaol yw “Datblygu dulliau presgripsiynu cymdeithasol ar gyfer teuluoedd, plant a phobl ifanc – datblygu llwybrau i gryfhau cymorth cymdeithasol a chysylltiadau ag asedau a gweithgareddau cymunedol, gan gynnwys dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth o ddefnyddio'r celfyddydau a dulliau sy'n seiliedig ar natur” Asesiad-o-Anghenion-Iechyd-Iechyd-Meddwl-Babanod-Plant-a-Phobl-Ifanc-yng-Nghymru.pdf. Gallai'r Cynllun gefnogi'r argymhelliad hwn drwy ddarparu cyfleusterau a chyfleoedd sy'n helpu i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Yn ogystal, nododd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn 2026, wrth gymharu gwledydd y Deyrnas Unedig, mai Cymru oedd â'r niferoedd uchaf o blant sy'n byw gyda gordewdra Gordewdra a gorbwysau - Iechyd Cyhoeddus Cymru. Y dull gweithredu arfaethedig mewn perthynas â'r Cynllun yw cynnwys tir ac adeiladau fel asedau cymwys, gan ei gwneud yn ofynnol i'r grŵp cymunedol ddangos a fyddai eu buddiant yn darparu mantais gymdeithasol, economaidd a/neu ddiwylliannol i'r gymuned leol. Gallai hyn ddiogelu asedau cymunedol sy'n bodoli eisoes, fel mannau gwyrdd y gellir eu defnyddio ar gyfer llesiant corfforol, a galluogi ymdrechion i gaffael mannau newydd a allai ddarparu ardaloedd ychwanegol i annog a hyrwyddo ffyrdd iachach o fyw.

Mae ystadegau yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ar gyfer 2025 ar nifer y bobl ifanc yng Nghymru nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yn awgrymu bod cyfran y bobl ifanc sy'n NEET yn cynyddu, gyda'r gyfradd uchaf yng Nghymru i'w gweld yng Ngogledd Cymru Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET): 2025 [HTML] | LLYW.CYMRU. Gallai cynnwys mantais economaidd fel maen prawf cymhwysedd arfaethedig ar gyfer y Cynllun annog grwpiau cymunedol i nodi a chofrestru asedau a allai yn y dyfodol ddarparu cyfleoedd gwaith neu gyfleoedd gwirfoddoli i bobl ifanc yn eu cymuned leol.

- **Gan ddefnyddio’r gwaith ymchwil hwn, sut rydych yn rhagweld y bydd eich polisi yn effeithio ar grwpiau gwahanol o blant a phobl ifanc, yn gadarnhaol ac yn negyddol? Cofiwch y gall polisïau sy'n canolbwyntio ar oedolion effeithio ar blant a phobl ifanc hefyd.**

Mae asedau cymunedol yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi plant a phobl ifanc drwy ddarparu cysylltiadau, lleoedd i ddysgu a chymdeithasu a bod yn greadigol. Gallant hefyd wella iechyd meddwl a llesiant, gan ddarparu llwyfan ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol, gweithgarwch corfforol a chymorth emosiynol, sy'n hanfodol ar gyfer eu datblygiad a'u gwydnwch.

Gallai'r Cynllun gefnogi hawliau plant mewn ffordd gadarnhaol drwy rymuso cymunedau i gaffael asedau sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer chwarae, hamdden, cyfranogi, dysgu, llesiant ac ymgysylltu diwylliannol.

Fodd bynnag, cydnabyddir hefyd y gallai fod risg y gallai asedau cymunedol ddod yn llai hygyrch i blant a phobl ifanc os caiff gwasanaethau presennol eu defnyddio at ddiben gwahanol gan grŵp cymunedol lle mae ei amcanion wedi'u hanelu mwy at gyfleusterau i gefnogi cenedlaethau hŷn ac na fyddant o bosibl bob amser yn rhoi blaenoriaeth i anghenion plant. Er enghraifft, mae risg y gallai lleoedd sy'n cynnal cyfleusterau ar gyfer pobl ifanc fel

clybiau newid i wasanaethau sy'n cynnig cyfleoedd i'r gymuned ehangach eu defnyddio ac na chaiff lleisiau ac anghenion plant eu hystyried yn llawn.

Mae asesiadau pellach yn cael eu cynnal i ddeall natur ddemograffig grwpiau gwirfoddol yng Nghymru a lle y gallai fod angen cymorth. Mae hyn yn cynnwys amgylchiadau lle gallai fod diffyg grwpiau cymunedol sy'n cynrychioli plant a phobl ifanc mewn cymunedau mwy bregus, a lle gellid ystyried bod caffael ased i gefnogi eu hanghenion penodol yn ofyniad hanfodol. Er enghraifft, gall colli cyfleusterau lleol gael effaith anghymesur ar blant a phobl ifanc oherwydd rhwystrau trafnidiaeth a llai o ddarpariaeth amgen.

Mae'r ymgynghoriad yn gofyn am safbwyntiau ar fudd cymunedol, atebolrwydd cymunedol, cysylltiad lleol a gofynion cymorth cymunedol. Gallai ystyriaeth bellach o'r polisi ystyried a gafodd tystiolaeth neu asesiad o anghenion pobl ifanc eu trafod, naill ai drwy ymgysylltu'n uniongyrchol neu drwy ystyried yr effaith y gallai unrhyw newid defnydd arfaethedig ei chael ar y grŵp demograffig hwn.

- **Pa waith cyfranogol gyda phlant a phobl ifanc rydych wedi'i ddefnyddio i lywio eich polisi? Os nad ydych wedi ymgysylltu â phlant na phobl ifanc, esboniwch pam.**

Fel rhan o'r broses gychwynnol o ddylunio'r polisi, gwnaethom ymgysylltu â grŵp Plant yng Nghymru, sef y corff ambarél cenedlaethol ar gyfer sefydliadau ac unigolion sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd yng Nghymru, i nodi sut y gallem roi prosesau ymgysylltu cynnar ar waith. Gwnaethom gytuno i ddatblygu arolwg byr i'w ddosbarthu i bobl ifanc sy'n gysylltiedig â sefydliadau y mae Plant yng Nghymru yn ymwneud â nhw. Rydym yn ddiolchgar am eu cymorth. Cafodd yr arolwg ei rannu ac roedd modd ymateb iddo rhwng 15 Medi a 15 Hydref 2026. Cafodd yr arolwg ei rannu â'r canlynol:

- 131 o wirfoddolwyr Cymru Ifanc (11-25 oed)
- Cylchlythyr Cymru Ifanc (165 o wirfoddolwyr Cymru Ifanc a sefydliadau â diddordeb)
- Sefydliadau sy'n cymryd rhan yn Sgwrs Fawr Cymru Ifanc
- 30 o gysylltiadau ysgol uwchradd
- 48 o sefydliadau partner
- 90 o Aelodau Rhwydwaith Cyfranogiad Cymru Gyfan
- 3 sefydliad ychwanegol yn gweithio yn y maes priodol.
- Rydym ar ddeall bod yr arolwg wedi cael ei rannu'n ehangach drwy e-bost a'r cyfryngau cymdeithasol gan rai o'r cysylltiadau uchod.

Cawsom 32 o ymatebion gan bobl ifanc rhwng 11 a 24 oed, gydag oedran cyfartalog o ryw 15 oed. Roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiynau am eu dealltwriaeth o hawl y gymuned i brynu, pwysigrwydd hawl y gymuned i brynu wrth gefnogi'r Gymraeg a diwylliant Cymru a'r mathau o wasanaethau neu weithgareddau a allai fod yn addas fel ased cymunedol. Mae Atodiad A yn crynhoi'r ymatebion a gafwyd.

Caiff yr adborth hwn ei ystyried ochr yn ochr â'r ymatebion i'r ymgynghoriad a thystiolaeth arall wrth fireinio'r cynigion polisi.

Aeth swyddogion hefyd i Grŵp Cynghori ar Hawliau Plant ym mis Medi 2026 i rannu ystyriaethau cynnar a gofyn barn o ran pa randdeiliaid ychwanegol y gallem ymgysylltu â nhw fel rhan o'r broses ddatblygu barhaus. O ganlyniad i'r trafodaethau hyn, mae gwaith pellach yn mynd rhagddo i ymgysylltu â Chwarae Cymru a'r Cyngor Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol yn ystod y cyfnod ymgynghori er mwyn cynyddu ein sail dystiolaeth a

deall sut y gall y Bil ryngweithio â swyddogaethau statudol presennol sy'n cefnogi plant a phobl ifanc yn eu bywydau beunyddiol.

3. Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith

- **Gan ddefnyddio'r dystiolaeth rydych wedi'i chasglu, pa effaith y mae eich polisi yn debygol o'i chael ar blant a phobl ifanc? Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i liniaru a/neu leihau unrhyw effeithiau negyddol?**

Credwn y bydd cyflwyno Cynllun o fudd cadarnhaol i blant a phobl ifanc gan y gallai gynyddu nifer y cyfleusterau cymunedol a fydd yn diwallu anghenion pobl leol a lleihau'r risg o golli manteision presennol.

Mae'r lleoedd a'r cymunedau y mae pobl yn byw ynddynt yn bwysig o ran eu llesiant cymdeithasol, emosiynol a chorfforol. Rydym yn ymwybodol bod llawer o ardaloedd lleol wedi colli neu wedi gweld gostyngiad yn nifer y lleoedd sydd ar gael ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned, cyfleoedd addysg, cymdeithasu a gweithgareddau corfforol – o safbwynt plentyn neu berson ifanc, gallai hyn gynnwys adeiladau lle ceir canolfannau ieuenctid neu lyfrgelloedd a mannau gwyrdd ar gyfer chwarae ac ymarfer corff.

Bydd cyflwyno Cynllun hawl y gymuned i brynu yn helpu cymunedau i achub neu gadw asedau hanfodol sy'n cefnogi pobl ifanc o ran eu llesiant corfforol, cymdeithasol ac emosiynol megis parciau, hybiau cymunedol, lleoliadau chwaraeon a lleoliadau diwylliannol. Gallai Cynllun statudol sy'n arwain at gynyddu asedau sy'n eiddo i'r gymuned gefnogi amcanion iechyd a llesiant drwy ddarparu mannau diogel a chyfleoedd i wella llesiant ac iechyd meddwl drwy fynediad at natur, prosiectau tyfu bwyd a mannau awyr agored diogel ar gyfer gweithgareddau chwaraeon a hamdden.

Gall asedau a gaiff eu gweithredu gan y gymuned helpu i gysylltu pobl ar lefel leol er mwyn iddynt gymdeithasu a dysgu oddi wrth ei gilydd, gan feithrin cydberthnasau a helpu i leihau ynysigrwydd ac unigrwydd. Gallai hefyd ddarparu cymorth i deuluoedd drwy ddatblygu rhwydweithiau.

- **Sut y bydd eich cynnig yn gwella neu'n herio hawliau plant, fel y'u nodir gan erthyglau CCUHP a'i Brotocolau Dewisol? Nodwch bob erthygl berthnasol sy'n gymwys i'ch polisi a rhowch esboniad yn nodi sut mae eich cynnig yn gwella neu'n herio'r hawl honno. Lle nodwyd effaith negyddol bosibl, esboniwch unrhyw gamau lliniaru a gaiff eu cymryd.**

Cafodd y cynigion eu hasesu yn erbyn Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Nodwyd bod erthyglau canlynol CCUHP yn berthnasol i'r maes polisi hwn a chaiff yr asesiad ei fireinio ymhellach yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl ei ddadansoddi.

Erthygl 2: Dim Gwahaniaethu – Mae Erthygl 2 yn ei gwneud yn ofynnol i bob plentyn fwynhau ei hawliau heb unrhyw fath o wahaniaethu.

Gallai Cynllun hawl y gymuned i brynu gefnogi ymdrechion i gadw neu gyflwyno asedau cymunedol sy'n darparu gwasanaethau sydd o fudd i bobl ifanc yn gyffredinol, gan leihau anghydraddoldebau rhwng plant, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, difreintiedig neu ardaloedd Cymraeg eu hiaith lle gallai colli ased gael effaith anghymesur ar blant a phobl ifanc.

Mae'n bosibl y bydd plant a phobl ifanc anabl yn arbennig yn dibynnu ar gyfleusterau cymunedol, cysylltiadau trafnidiaeth, mannau hamdden a gwasanaethau cymorth lleol hygyrch. Gallai'r graddau y mae asedau cymunedol yn hygyrch o safbwynt corfforol ac yn gynhwysol ddylanwadu ar y manteision a brofir gan blant a phobl ifanc anabl. Bydd yr

ymatebion i'r ymgynghoriad yn helpu i lywio'r broses o ddatblygu'r Cynllun a chanllawiau ategol drwy nodi unrhyw rwystrau neu gyfleoedd penodol y dylid eu hystyried.

Erthygl 3 - Lles Pennaf y Plentyn - Mae Erthygl 3 yn ei gwneud yn ofynnol sicrhau mai lles pennaf y plentyn yw'r brif ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio arno.

Er nad yw'r cynigion wedi'u cyfeirio'n benodol at blant a phobl ifanc, gall penderfyniadau sy'n ymwneud ag asedau cymunedol effeithio ar gyfleusterau, gwasanaethau a mannau sy'n bwysig iddynt. Felly mae'r asesiad hwn wedi ystyried sut y gallai'r cynigion gefnogi llesiant plant a'u mynediad at gyfleoedd cymunedol. Bydd y broses ymgynghori, gan gynnwys ymgysylltu â sefydliadau sy'n cynrychioli plant a phobl ifanc, yn darparu rhagor o dystiolaeth i lywio'r broses o ddatblygu'r polisi a sicrhau y caiff buddiannau plant eu hystyried wrth i'r cynigion gael eu mireinio.

Erthygl 12 - Parch at farn y plentyn - Mae Erthygl 12 yn rhoi'r hawl i blant a phobl ifanc fynegi eu barn ar faterion sy'n effeithio arnynt ac i'r farn honno gael sylw dyledus.

Cynhaliwyd gwaith ymgysylltu er mwyn casglu barn plant a phobl ifanc ar y cynigion. Mae hyn wedi cynnwys gwaith ymgysylltu drwy gorff ambarél Plant yng Nghymru a datblygu deunyddiau ymgynghori y bwriedir iddynt helpu cynulleidfaoedd iau i gyfranogi. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd wedi llywio'r asesiad o effeithiau a bydd yn parhau i lywio'r broses o ddatblygu'r polisi ar ôl yr ymgynghoriad.

Mae cyfleoedd posibl i'r Awdurdod Cofrestru ystyried anghenion penodol plant, teuluoedd a phobl ifanc drwy'r broses ymgeisio a'r broses asesu ddilynol lle bydd grwpiau cymunedol yn cyflwyno datganiad o ddiddordeb yn ystod y cam caffael.

Felly, gallai'r cynigion gael effaith gadarnhaol anuniongyrchol ar Erthygl 12 lle mae perchnogaeth a rheolaeth gymunedol dros asedau lleol yn creu cyfleoedd ychwanegol i blant a phobl ifanc gymryd rhan mewn penderfyniadau lleol a gweithgareddau cymunedol.

Erthygl 15 - Rhyddid i ymgysylltu a chynnull yn heddychlon - Mae Erthygl 15 yn amddiffyn hawliau plant i gyfarfod â'i gilydd, ymuno â grwpiau a chymryd rhan ym mywyd y gymuned.

Mae llawer o asedau cymunedol yn darparu mannau diogel lle gall plant a phobl ifanc ddod at ei gilydd ar gyfer gweithgareddau hamdden, diwylliannol, addysgol a chymdeithasol. Drwy helpu i gadw asedau cymunedol a sicrhau eu cynaliadwyedd, gallai'r cynigion helpu i gynnal cyfleoedd i blant a phobl ifanc gymryd rhan mewn sefydliadau, gweithgareddau a digwyddiadau cymunedol.

Erthygl 23 – Plant ag Anableddau - Mae Erthygl 23 yn cydnabod hawliau plant anabl i fwynhau bywyd llawn a gweddus ac i gymryd rhan weithredol yn eu cymuned.

Er nad yw Cynllun Hawl y Gymuned i Brynu arfaethedig wedi'i gyfeirio'n benodol at blant anabl, gallai asedau cymunedol ddarparu cyfleoedd ar gyfer hamdden, rhyngweithio cymdeithasol, dysgu, gwasanaethau cymorth a chyfranogiad cymunedol. Felly, gallai'r cynigion gael effeithiau cadarnhaol anuniongyrchol lle maent yn helpu i gadw cyfleusterau sy'n hygyrch ac yn gynhwysol i blant a phobl ifanc anabl. Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol penodol; ond rhoddir ystyriaeth barhaus i hygyrchedd a chynhwysiant wrth i'r cynigion gael eu mireinio.

Erthygl 24 - Iechyd a gwasanaethau iechyd - Mae Erthygl 24 yn cydnabod hawl plant i'r safon iechyd uchaf y gellir ei chyrraedd.

Gall asedau cymunedol gyfrannu at lesiant corfforol a llesiant meddwl drwy ddarparu cyfleoedd ar gyfer hamdden, ymarfer corff, rhyngweithio cymdeithasol a mynediad at gymorth cymunedol. Gallai Cynllun hawl y gymuned i brynu helpu cymunedau i gadw neu gaffael asedau sy'n cyfrannu at blentyndod iachach, fel prosiectau tyfu bwyd cymunedol,

mynediad at natur, gweithgareddau llesiant ac iechyd meddwl. Fel y cyfryw, gallai'r Cynllun gyfrannu'n anuniongyrchol at ganlyniadau iechyd a llesiant cadarnhaol i blant a phobl ifanc.

Erthygl 27 - Safon byw ddigonol – Mae Erthygl 27 yn nodi y dylai safon byw fod yn ddigon da i ddiwallu anghenion corfforol a chymdeithasol a chefnogi datblygiad.

Gall asedau cymunedol ddarparu mynediad at wasanaethau cymorth i deuluoedd gyfarfod a chymdeithasu er mwyn dysgu oddi wrth ei gilydd, gan feithrin cydberthnasau a rhwydweithiau cymdeithasol.

Erthygl 29 - Nodau addysg - Mae Erthygl 29 yn nodi y dylai addysg helpu i ddatblygu galluoedd a thalentau plant a'u parch at eu hunaniaeth ddiwylliannol a'u cymunedau.

Mae asedau cymunedol yn aml yn cefnogi cyfleoedd dysgu anffurfiol, gweithgareddau diwylliannol, cyfleoedd i wirfoddoli a datblygu sgiliau. Felly, mae'n bosibl y bydd y cynigion yn cael effeithiau cadarnhaol anuniongyrchol drwy gefnogi mynediad at amgylcheddau sy'n cyfrannu at ddatblygiad personol, cymdeithasol a diwylliannol plant ochr yn ochr ag addysg ffurfiol, megis mynediad at glybiau gwaith cartref, hyfforddiant sgiliau, gweithgareddau i bobl ifanc, prosiectau celfyddydau, diwylliant a threftadaeth ac addysg amgylcheddol.

Erthygl 30 - Plant o grwpiau lleiafrifol neu frodorol - Mae Erthygl 30 yn amddiffyn hawliau plant o grwpiau lleiafrifol i fwynhau eu diwylliant, eu crefydd a'u hiaith eu hunain.

Mae rhai asedau cymunedol yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi'r Gymraeg, gweithgareddau diwylliannol a chymunedol. Gallai Cynllun Hawl y Gymuned i Brynu gefnogi gweithgareddau cyfrwng Cymraeg i bobl ifanc, digwyddiadau diwylliannol a hybiau cymunedol sy'n galluogi defnydd cyffredinol o'r Gymraeg. Gall hyn gyfrannu at allu plant i fwynhau'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau cysylltiedig. Gallai'r cynigion helpu cymunedau i ddiogelu asedau sy'n cyfrannu at gyfranogiad diwylliannol a hunaniaeth gymunedol, a thrwy hynny gefnogi cyfleoedd i blant a phobl ifanc ymgysylltu â'u hiaith, eu diwylliant a'u treftadaeth.

Erthygl 31 - Hamdden, chwarae a diwylliant - Ystyrir bod Erthygl 31 yn arbennig o berthnasol i'r cynigion hyn. Mae'n cydnabod hawliau plant i orffwys, i gael cyfleoedd hamdden, chwarae ac adloniant ac i gymryd rhan mewn bywyd diwylliannol.

Mae llawer o'r asedau cymunedol y gallai'r Cynllun fod o fudd iddynt yn darparu cyfleoedd ar gyfer chwarae, hamdden, chwaraeon, diwylliant a gweithgaredd cymdeithasol gan gynnwys parciau, mannau gwyrdd, clybiau ieuenctid, canolfannau cymunedol, lleoliadau celf a lleoliadau diwylliannol. Gall yr asedau hyn wneud cyfraniad pwysig at lesiant corfforol, cymdeithasol ac emosiynol plant.

Felly, gallai'r cynigion gael effeithiau cadarnhaol lle maent yn helpu cymunedau i gadw cyfleusterau a mannau sy'n cefnogi'r gweithgareddau hyn. Gallai hyn fod yn arbennig o bwysig mewn cymunedau lle mae cyfleusterau amgen yn gyfyngedig neu lle mae risg y bydd asedau gwerthfawr yn cau neu'n cael eu gwaredu.

Ni ddisgwylir llawer o effeithiau negyddol posibl. Fodd bynnag, gall fod amgylchiadau lle na fydd newidiadau i berchnogaeth neu weithrediad ased cymunedol yn adlewyrchu anghenion plant a phobl ifanc yn llawn. Bydd gwaith ymgysylltu ac ymgynghori parhaus yn helpu i nodi unrhyw risgiau o'r fath ac ymdrin â nhw, gan sicrhau bod yr anghenion hyn yn parhau i gael eu hystyried wrth i'r broses o ddatblygu'r polisi fynd rhagddi.

Dylid rhoi ystyriaeth benodol i bwysigrwydd cyfleoedd hygyrch ar gyfer chwarae, hamdden, chwaraeon a chyfranogiad diwylliannol i blant a phobl ifanc anabl. Gall asedau cymunedol ddarparu mannau cynhwysol sy'n cefnogi'r gweithgareddau hyn ac yn cyfrannu at lesiant a chyfranogiad cymdeithasol.

Erthygl 42 - Gwybodaeth am hawliau - Mae Erthygl 42 yn ei gwneud yn ofynnol i lywodraethau roi cyhoeddusrwydd eang i'r Confensiwn a hawliau plant.

Bydd paratoi gweithgareddau ymgysylltu sy'n addas i blant yn helpu i godi ymwybyddiaeth o hawliau plant a helpu plant i gymryd rhan wrth ddatblygu polisïau. Bydd cyhoeddi'r asesiad hwn ochr yn ochr â'r deunyddiau ymgynghori hefyd yn hyrwyddo tryloywder ynghylch sut mae hawliau plant wedi cael eu hystyried drwy gydol y broses o ddatblygu'r cynigion.

Asesiad cyffredinol

Ystyriwyd elfennau perthnasol Sylwadau Terfynol CCUHP a Sylwadau Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig hefyd wrth ddatblygu'r asesiad hwn, yn enwedig y rhai hynny sy'n ymwneud â chyfranogiad, peidio â gwahaniaethu, parch at safbwyntiau, plant ag anableddau, hamdden ac adloniant a rhoi hawliau plant ar waith.

Nid yw'r asesiad wedi nodi unrhyw effeithiau negyddol sylweddol ar hawliau plant yn deillio o'r Cynllun Hawl y Gymuned i Brynu arfaethedig. Mae'r effeithiau tebygol yn anuniongyrchol ac yn gadarnhaol gan fwyaf, yn deillio o'r potensial i helpu i gadw asedau sy'n cyfrannu at lesiant, cyfranogiad, hamdden, diwylliant a bywyd cymunedol plant, i sicrhau cynaliadwyedd yr asedau hynny ac i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio gan y gymuned.

Caiff rhagor o dystiolaeth ei chasglu drwy'r broses ymgynghori a gwaith ymgysylltu parhaus â phlant, pobl ifanc a sefydliadau cynrychioliadol. Caiff yr asesiad hwn ei adolygu a'i ddiweddaru wrth i'r cynigion gael eu mireinio a chyn gwneud penderfyniadau polisi terfynol.

4. Cyfathrebu â phlant a phobl ifanc

- **Os ydych wedi gofyn am farn plant a phobl ifanc ar eich cynnig, sut y byddwch yn eu hysbysu am y canlyniad?**

Caiff crynodeb o'r ymatebion i'r arolwg a ddarparwyd gan bobl ifanc fel rhan o'r broses gychwynnol o ddatblygu'r polisi ei rannu â grŵp Plant yng Nghymru ac mae'n rhan o'r atodiad i'r asesiad effaith hwn.

5. Monitro'r polisi ac adolygu'r effaith

- **Nodwch pa ddull monitro ac adolygu y byddwch yn ei roi ar waith er mwyn adolygu'r Asesiad Effaith Hawliau Plant hwn.**

Caiff yr Asesiad Effaith Hawliau Plant hwn ei adolygu ar ôl i'r ymarfer ymgynghori ddod i ben a chaiff yr ymatebion eu dadansoddi i nodi unrhyw wybodaeth berthnasol ac ychwanegol, er mwyn mireinio'r asesiad. Bydd gwaith ymgysylltu parhaus â'r Grŵp Cynghori ar Hawliau Plant a sefydliadau perthnasol eraill yn cael ei gynnal cyn cyflwyno'r Bil.

- **Yn dilyn yr adolygiad hwn, a oes unrhyw ddiwygiadau sydd angen eu gwneud i'r polisi neu'r ffordd y caiff ei roi ar waith?**

Caiff hyn ei ystyried ar ôl cwblhau'r ymarfer ymgynghori.

3. Asesiad Effaith Iechyd

Enw'r penderfyniad:

Ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer Cynllun Hawl y Gymuned i Brynu i Gymru

Diben / nod y penderfyniad:

Gofyn am safbwyntiau a thystiolaeth ar gynigion i roi Cynllun Hawl y Gymuned i Brynu ar waith yng Nghymru a defnyddio canfyddiadau'r ymgynghoriad i lywio'r broses o ddatblygu'r Cynllun a deddfwriaeth yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru, drwy ei Rhaglen Lywodraethu, wedi ymrwymo i gyflwyno deddfwriaeth i roi Cynllun Hawl y Gymuned i Brynu ar waith yng Nghymru. Mae'r ymgynghoriad yn gofyn am safbwyntiau ar ddyluniad manwl y Cynllun, gan gynnwys ei gwmpas, gofynion cymhwystra a threfniadau gweithredu.

Byddai'r Cynllun arfaethedig yn galluogi sefydliadau cymunedol cymwys i enwebu asedau sy'n darparu budd cymunedol i'w cynnwys ar gofrestr a, lle y caiff ased cofrestredig ei roi ar werth, yn rhoi cyfle iddynt geisio caffael yr ased hwnnw.

Asesiad cam ymgynghori yw hwn a chaiff ei adolygu ar ôl yr ymgynghoriad wrth i'r cynigion polisi ddatblygu.

Ar hyn o bryd, ni fwriedir i'r Cynllun weithredu fel ymyriad tai dan arweiniad y gymuned a chynigir na ddylid cynnwys tai preswyl, oni bai eu bod yn rhan o ased defnydd cymysg ehangach.

Grŵp (Grwpiau) o'r Boblogaeth y mae'r penderfyniad / polisi yn effeithio arno (arnynt)

Gallai'r Cynllun arfaethedig effeithio ar gymunedau ledled Cymru. Bydd natur a graddau unrhyw effeithiau yn dibynnu ar ddyluniad terfynol y Cynllun, yr asedau dan sylw ac a fydd sefydliadau cymunedol yn gallu eu caffael a'u rheoli'n llwyddiannus.

Mae'r grwpiau y gellid effeithio arnynt yn cynnwys y canlynol:
• pobl o bob oed;
• pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd hirdymor;
• pobl sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol;
• cymunedau sy'n siarad Cymraeg;
• cymunedau gwledig, cymunedau arfordirol a chymunedau sy'n ynysig o safbwynt daearyddol;
• pobl sy'n defnyddio cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol;
• gwirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr cymunedol;
• perchnogion asedau;
• awdurdodau lleol a sefydliadau eraill sy'n ymwneud â gweinyddu neu gefnogi'r Cynllun.

Gall asedau cymunedol gynnwys canolfannau cymunedol, llyfrgelloedd, cyfleusterau chwaraeon a diwylliannol, rhandiroedd, mannau gwyrdd a gwasanaethau lleol. Mae Adroddiad Terfynol Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Comisiwn Asedau Cymunedol yn nodi'r cyfraniad y gall asedau o'r fath ei wneud at fywiogrwydd cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd cymunedau a gwydnwch amgylcheddol.

Mae cyflwyniad Iechyd Cyhoeddus Cymru i Ymchwiliad y Senedd i asedau cymunedol yn nodi grymuso cymunedol, cyfranogiad, cydberthnasau cymdeithasol a mwy o reolaeth dros benderfyniadau sy'n effeithio ar fywydau pobl fel ffactorau posibl sy'n cyfrannu at lesiant. Mae hefyd yn rhybuddio bod gan gymunedau wahanol lefelau o gapasiti, sgiliau ac adnoddau, ac y gallai fod angen cymorth i atal cynnydd o ran anghydraddoldebau iechyd ac anghydraddoldebau cymdeithasol.

Nododd gwaith ymgysylltu cynnar hefyd rwystrau posibl i sefydliadau llai neu sefydliadau newydd, cymunedau gwledig, pobl anabl, gofalwyr di-dâl, pobl yr effeithir arnynt gan allgáu digidol a chymunedau â mynediad cyfyngedig at gyllid neu arbenigedd proffesiynol. Mae'r canfyddiadau hyn yn cynrychioli safbwyntiau a phrofiad rhanddeiliaid a byddant yn cael eu hystyried ochr yn ochr ag ymatebion i'r ymgynghoriad a thystiolaeth ehangach.

Mae angen ystyried tegwch o ran iechyd. Mae gwaith ymchwil yng Nghymru yn dangos bod gan lawer o gymunedau sy'n wynebu amddifadedd seilwaith cymunedol gwannach, lefelau ymgysylltu dinesig is neu gysylltedd gwaeth hefyd. Mae'n bosibl y byddai gan y cymunedau hyn fwy i'w ennill drwy gadw cyfleusterau lleol ond maent yn wynebu rhwystrau mwy mewn perthynas â chaffael a chynaliadwyedd hirdymor.

Nodi ac asesu effeithiau ar iechyd

Nid ymyriad iechyd yw'r Cynllun arfaethedig. Mae unrhyw effeithiau ar iechyd yn fwy tebygol o godi'n anuniongyrchol drwy benderfynyddion iechyd cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol.

Effeithiau bwriadedig y penderfyniad

Gallai'r effeithiau cadarnhaol posibl gynnwys y canlynol:
• mwy o gyfranogiad cymunedol, gwirfoddoli a chysylltiad cymdeithasol;
• mwy o ddylanwad gan y gymuned dros asedau sy'n bwysig yn lleol;
• cadw neu ddatblygu cyfleusterau, gwasanaethau a gweithgareddau sy'n cefnogi llesiant;
• cymorth ar gyfer diwylliant lleol, treftadaeth, y defnydd o'r Gymraeg a hunaniaeth gymunedol;
• cyfleoedd hamdden, gweithgarwch corfforol neu fynediad at fannau gwyrdd lle bo hynny'n berthnasol i'r ased.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn nodi bod asedau cymunedol yn rhan o'r seilwaith sy'n cefnogi presgripsiynu cymdeithasol. Gallai'r Cynllun helpu i gadw rhywfaint o'r seilwaith hwnnw, ond ni fyddai'n sefydlu nac yn ariannu gwasanaethau iechyd na gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol ei hun. Mae cymorth methodolegol ar gael gan Uned Gymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru.

Nid yw'r effeithiau hyn yn awtomatig. Ni fyddai cofrestru ynddo'i hun yn creu mantais o safbwynt iechyd. Byddai unrhyw effeithiau cadarnhaol yn dibynnu ar roi ased cymwys ar werth, budd cymunedol, caffael llwyddiannus a chynaliadwy, mynediad at gymorth, addasrwydd yr ased a defnydd hygyrch a chynhwysol ohono yn y dyfodol. Ni fyddai caffael o reidrwydd yn cadw defnydd presennol ased; byddai angen i unrhyw ddefnydd yn y dyfodol barhau i ddarparu budd i'r gymuned.

Effeithiau anfwriadol tebygol y penderfyniad

Gallai'r effeithiau anfwriadol posibl gynnwys y canlynol:

• bod cymunedau sydd â mwy o gapasiti, cyllid neu gymorth arbenigol mewn sefyllfa well i ddefnyddio'r Cynllun;
• gofynion ychwanegol ar wirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr;
• anghytundeb neu siom yn y gymuned pan na fydd cynigion yn mynd rhagddynt;
• pwysau ariannol neu sefydliadol lle bydd yn anodd cynnal ased a gaffaelwyd;
• rhwystrau o ran hygyrchedd i rai defnyddwyr;
• ansicrwydd, oedi neu gostau gweinyddol i berchnogion a chyrff gweinyddu.

Mae tystiolaeth a gyflwynwyd i Ymchwiliad y Senedd i asedau cymunedol yn nodi risgiau ymarferol gan gynnwys cynaliadwyedd ariannol, costau atgyweirio a gweithredu, gofynion llywodraethu, mynediad at gyllid, sgiliau trefnu a dibyniaeth ar wirfoddolwyr. Mae hefyd yn tynnu sylw at y risg y gallai manteision gael eu dosbarthu mewn ffordd anwastad os na fydd cymorth priodol ar gael.

Penderfynyddion ehangach iechyd a ffactorau sy'n gysylltiedig â thegwch iechyd

Mae penderfynyddion ehangach perthnasol yn cynnwys y canlynol:
• cysylltiad cymdeithasol, ynysigrwydd, gwirfoddoli a chydlyniant cymunedol;
• cyflogaeth, sgiliau, menter, mynediad at gyllid a chynaliadwyedd hirdymor;
• y defnydd o'r Gymraeg, treftadaeth, hunaniaeth a chyfranogiad diwylliannol;
• mynediad at fannau gwyrdd, cyfleoedd hamdden ac ansawdd amgylcheddol lleol;
• mynediad at gyfleusterau, gweithgareddau a chymorth cymunedol lleol;
• cyfranogiad y gymuned mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar asedau sy'n bwysig yn lleol.

Mae'r penderfynyddion hyn yn gyson â dull ataliol, seiliedig ar le Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gynnwys nodau sy'n cynnwys Cymru fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynus, a Chymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

Mae gwaith ymchwil yr Ymddiriedaeth Adeiladu Cymunedau yn mapio gwahaniaethau mewn asedau dinesig, ymgysylltu cymunedol a chysylltedd ledled Cymru. Mae'n cyfeirio at orgyffwrdd cryf rhwng amddifadedd a seilwaith cymunedol gwan, gan helpu i ystyried anghydraddoldeb sy'n seiliedig ar le wrth ddylunio'r Cynllun.

Mae'n bosibl na chaiff y manteision posibl eu dosbarthu'n gyfartal. Gall amgylchiadau economaidd-gymdeithasol, seilwaith cymunedol, gwledigrwydd, trafnidiaeth, mynediad digidol, anabledd, iaith, gallu gwirfoddolwyr a mynediad at gyngor proffesiynol effeithio ar allu cymunedau i gyfranogi. Gallai prosesau cymhleth, costus neu ddigidol yn unig ehangu anghydraddoldebau sy'n bodoli eisoes.

Effeithiau byrdymor a hirdymor

Yn y byrdymor, gallai'r cynigion gynyddu ymwybyddiaeth, trafodaeth a chydweithio mewn perthynas ag asedau lleol. Mae'r effeithiau negyddol posibl yn cynnwys llwyth gwaith gwirfoddolwyr, baich gweinyddol, ansicrwydd perchnogion a disgwyliadau uwch lle na fydd caffaeliad yn gallu mynd rhagddo.

Gall effeithiau tymor hwy gynnwys cyfleusterau yn cael eu cadw neu eu defnyddio at ddiben gwahanol, gweithgareddau diwylliannol parhaus a sefydliadau cymunedol cryfach. Mae'r risgiau yn cynnwys diffygiad ymhlith gwirfoddolwyr, asedau nad ydynt yn gynaliadwy

o safbwynt ariannol a chyfranogiad anghyfartal. Yn ystod y cam ymgynghori, nid oes digon o dystiolaeth i bennu graddfa, dosbarthiad na hyd yr effeithiau hyn.

Tystiolaeth a gwaith ymgysylltu

Cafodd yr asesiad hwn ei lywio gan bum gweithdy i randdeiliaid a gynhaliwyd ym mis Awst 2026, arolygon i randdeiliaid a gwaith ymgysylltu uniongyrchol â sefydliadau cymunedol, awdurdodau lleol, busnesau a sefydliadau cymorth.

Nododd y gwaith ymgysylltu fanteision posibl yn ymwneud â chysylltiad cymdeithasol, cyfranogiad, diwylliant, gwasanaethau lleol a gwydnwch, ochr yn ochr â rhwystrau yn ymwneud â chapasiti sefydliadol, cyllid, arbenigedd proffesiynol, mynediad digidol, pwysau ar wirfoddolwyr a chynaliadwyedd hirdymor.

Mae'r asesiad hefyd yn seiliedig ar y canlynol:
•Adroddiad Terfynol Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Comisiwn Asedau Cymunedol;
•cyflwyniad Iechyd Cyhoeddus Cymru i Ymchwiliad y Senedd i asedau cymunedol, gan gynnwys tystiolaeth ar rymuso, asedau sy'n seiliedig ar le, presgripsiynu cymdeithasol, capasiti cymunedol ac anghydraddoldebau iechyd;
•Ymchwiliad Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai'r Senedd i asedau cymunedol, gan gynnwys adroddiad y Pwyllgor, cyflwyniadau tystiolaeth ac ymateb Llywodraeth Cymru;
• Cymunedau cydnerth: wynebu'r her o fod ar yr ymylon, gan gynnwys Indecs Asedau Cymunedol Cymru ac Indecs Cydnerthedd Cymunedol Cymru;
• tystiolaeth gymharol o'r Alban a Lloegr, gan gynnwys gwerthusiad Llywodraeth yr Alban o Hawl y Gymuned i Brynu ac asesiad effaith cam olaf Llywodraeth y DU ar gyfer Hawl y Gymuned i Brynu yn Lloegr, a ddefnyddir fel tystiolaeth gyd-destunol yn hytrach na thystiolaeth y gellir ei throsglwyddo'n uniongyrchol.

Caiff safbwyntiau rhanddeiliaid eu trin fel tystiolaeth o gyfleoedd, risgiau a rhwystrau canfyddedig, nid fel prawf y bydd y Cynllun yn sicrhau canlyniadau iechyd penodol. Mae'r dystiolaeth yn parhau i fod yn ansicr ynghylch niferoedd, dosbarthiad daearyddol, yr effeithiau ar grwpiau penodol, anghenion cymorth, cynaliadwyedd hirdymor a dosbarthiad manteision.

Mae'n bosibl y bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn darparu tystiolaeth a safbwyntiau ychwanegol ar effeithiau, risgiau ac ystyriaethau gweithredu posibl. Byddant yn cael eu hystyried ochr yn ochr â'r gwaith ymgysylltu ehangach â rhanddeiliaid, y broses o ddatblygu polisïau a gwaith dadansoddol yn y dyfodol. Caiff yr Asesiad Effaith Iechyd ei adolygu ar ôl yr ymgynghoriad a'i ddiweddaru wrth i'r cynigion polisi a'r cynigion deddfwriaethol manwl ddatblygu.

Lliniaru a gwella

Gellid lleihau'r effeithiau negyddol posibl drwy'r canlynol:
• prosesau cofrestru a chaffael cymesur a hygyrch;
• canllawiau clir, dwyieithog a hygyrch, gan gynnwys llwybrau â chymorth a llwybrau nad ydynt yn ddigidol;
• cyngor priodol ar faterion cyfreithiol, llywodraethu, prisio, cynllunio busnes a materion ariannol;
• cymorth wedi'i dargedu i gymunedau sy'n wynebu mwy o rwystrau;
• gwaith ymgysylltu cynhwysol a phroses dryloyw ar gyfer gwneud penderfyniadau;
• mesurau amddiffyn cymesur, trefniadau adolygu a chymorth ôl-gaffael lle y bo'n briodol.

Gellid gwella effeithiau cadarnhaol posibl drwy bartneriaethau, defnydd cymunedol hygyrch a chynhwysol, gweithgarwch Cymraeg a gweithgarwch sy'n pontio'r cenedlaethau, newidiadau defnydd priodol sy'n cynnal budd cymunedol, a monitro a yw cymunedau sy'n wynebu mwy o rwystrau yn gallu cymryd rhan.

Materion i'w hystyried ymhellach yw'r rhain, nid ymrwymiadau i gyllid, gofynion statudol na threfniadau gweithredu penodol ar hyn o bryd.

Yr effeithiau cyffredinol ar iechyd

Yr effeithiau cadarnhaol posibl mwyaf arwyddocaol yw y bydd gan y gymuned fwy o ddylanwad dros asedau sy'n bwysig yn lleol ac y byddant o bosibl yn gallu cadw lleoedd sy'n cefnogi cysylltiad cymdeithasol, cyfranogiad, cyfleoedd hamdden, diwylliant a mynediad at weithgareddau neu wasanaethau lleol neu ddefnyddio lleoedd o'r fath at ddiben gwahanol.

Mae tystiolaeth o Gymru yn cefnogi cysylltiadau credadwy rhwng grymuso cymunedol, cysylltiad cymdeithasol, cyfranogiad a llesiant. Nid yw'n cadarnhau y bydd y Cynllun arfaethedig ei hun yn sicrhau gwelliannau mesuradwy o ran iechyd corfforol nac o ran iechyd meddwl. Byddai effeithiau cadarnhaol yn dibynnu ar roi ased ar werth, ei gaffael yn llwyddiannus ac mewn modd cynaliadwy, a defnydd hygyrch a chynhwysol ohono yn y dyfodol. Mae'r effeithiau negyddol posibl yn cynnwys straen ar wirfoddolwyr, pwysau ariannol, anghytundeb cymunedol, ansicrwydd perchnogion a mynediad anghyfartal.

Yr effeithiau ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl: Cymysg (dros dro).

Yr effaith ar anghydraddoldebau iechyd: Aneglur. Gallai fod o fudd i gymunedau sydd â chyfleusterau cyfyngedig, ond gallai cymunedau difreintiedig wynebu mwy o rwystrau a fyddai'n eu hatal rhag cyfranogi. Bydd yr effaith yn y pen draw yn dibynnu ar ddyluniad terfynol y Cynllun, y niferoedd sy'n defnyddio'r Cynllun a'r trefniadau cymorth.

Dylanwad ar y broses o wneud penderfyniadau

Mae'r Asesiad Effaith Iechyd wedi tynnu sylw at bwysigrwydd trin effeithiau iechyd fel rhai anuniongyrchol sy'n gysylltiedig ag asedau penodol, gan osgoi tybiaethau bod perchnogaeth yn gwella llesiant yn awtomatig, cydnabod gwahaniaethau o ran capasiti cymunedol, datblygu prosesau hygyrch, ystyried cymorth ochr yn ochr â deddfwriaeth a monitro cyfranogiad ar draws gwahanol gymunedau.

Nid yw'r asesiad wedi nodi rheswm sy'n gysylltiedig ag iechyd pam na ddylai'r cynigion fod yn destun ymgynghoriad. Gallai'r ymatebion i'r ymgynghoriad ddarparu tystiolaeth neu safbwyntiau ychwanegol, a fydd yn cael eu hystyried ochr yn ochr â'r gwaith ymgysylltu ehangach â rhanddeiliaid, y broses o ddatblygu polisïau a gwaith dadansoddol yn y dyfodol.

Gwaith monitro ac adolygu parhaus

Caiff yr Asesiad Effaith Iechyd ei adolygu ar ôl yr ymgynghoriad a'i ddiweddaru wrth i'r cynigion polisi ddatblygu. Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cynnig un ffynhonnell wybodaeth, ochr yn ochr â gwaith ymgysylltu parhaus, y broses o ddatblygu polisïau a gwaith dadansoddol yn y dyfodol. Gallai gwybodaeth fonitro bosibl gynnwys y canlynol:
• enwebiadau, cofrestriadau a chaffaeliadau a gwblhawyd;

• cyfranogiad ar draws gwahanol gymunedau ac ardaloedd daearyddol;
• y defnydd o unrhyw gyngor neu gymorth;
• y rhesymau pam nad yw sefydliadau yn bwrw ati;
• cynaliadwyedd a hygyrchedd yr asedau a gaffaelwyd;
• adborth gan gymunedau, gwirfoddolwyr, defnyddwyr, perchnogion a chyrff gweinyddu.

Gall data cyd-destunol helpu i ddehongli patrymau ond ni fyddai'n cadarnhau bod unrhyw ganlyniad a welwyd wedi'i achosi gan y Cynllun. Caiff trefniadau monitro a gwerthuso eu datblygu ymhellach ochr yn ochr â'r broses o gynllunio'r camau gweithredu.

Cynhelir adolygiad pellach yn dilyn yr ymgynghoriad, wrth i'r polisi manwl a'r trefniadau gweithredu gael eu trafod, cyn cyflwyno unrhyw Fil ac, os yw'n berthnasol, yn ystod y broses o ddatblygu is-ddeddfwriaeth ac ar ôl rhoi'r Cynllun ar waith.

Datganiad Sicrwydd y Dirprwy Gyfarwyddwr

Rwyf drwy hyn yn cadarnhau fy mod i, Richard Baker, yn fodlon *bod y* penderfyniad arfaethedig y mae'r asesiad yn ymwneud ag ef o natur strategol ynghylch sut i arfer swyddogaethau Gweinidogion Cymru.

Atodiad A - Arolwg i Bobl Ifanc

Crynodeb:

Aeth arolwg o **32 o bobl ifanc rhwng 11 a 24 oed** (oedran cyfartalog o ryw **15 oed**) ati i ystyried safbwyntiau ar Hawl y Gymuned i Brynu, perchnogaeth gymunedol ac asedau lleol. Roedd ymwybyddiaeth o Hawl y Gymuned i Brynu yn isel ar y cyfan, gyda'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn nodi nad oedd ganddynt fawr ddim gwybodaeth, os o gwbl, am y polisi.

Roedd y gefnogaeth fwyaf gan y bobl ifanc tuag at sicrhau perchnogaeth gymunedol dros y canlynol:

- **Caeau chwaraeon (63%)**
- **Hybiau llesiant/cymunedol (63%)**
- **Neuaddau pentref (53%)**
- **Coetiroedd (50%)**
- **Parciau chwarae (47%)**
- **Amgueddfeydd (47%)**

Mae'r canfyddiadau yn awgrymu mai cyfleusterau sy'n cefnogi hamdden, llesiant, cysylltiad cymdeithasol a stiwardiaeth amgylcheddol sy'n cael eu hystyried fel y rhai mwyaf priodol ar gyfer perchnogaeth gymunedol.

Yr asedau a nodwyd amlaf fel y rhai yr oedd angen eu diogelu oedd:

- **Coetiroedd (39%)**
- **Caeau chwaraeon (36%)**
- **Parciau chwarae (36%)**
- **Canolfannau hamdden (36%)**
- **Hybiau llesiant/cymunedol (32%)**
- **Canolfannau i deuluoedd (29%)**

Tynnodd yr ymatebwyr sylw hefyd at bwysigrwydd diogelu llyfrgelloedd, eglwysi a mannau gwyrdd cymunedol lleol.

Prosiectau cymunedol y mae pobl ifanc am eu cefnogi

- Gwasanaethau llesiant ac iechyd meddwl.
- Prosiectau a gweithgareddau yn benodol i bobl ifanc.
- Mentrau garddio a thyfu bwyd cymunedol.
- Prosiectau adfywio economaidd lleol a chymorth i fusnesau.
- Prosiectau creadigol a chelfyddydol a phrosiectau'n ymwneud â'r cyfryngau.

Beth sy'n creu ymdeimlad cryf o gymuned

- Cymdogion yn cefnogi ei gilydd.
- Cyfleoedd i gyfarfod a chymdeithasu.
- Digwyddiadau cymunedol a mannau a rennir.
- Hunaniaeth leol gryf ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Casgliadau

Mae canfyddiadau'r arolwg yn dangos cefnogaeth gref tuag at berchnogaeth gymunedol dros **gyfleusterau llesiant, cyfleusterau chwaraeon, a mannau cymunedol**. Mae pobl ifanc yn rhoi gwerth uchel ar **fannau diogel i gyfarfod, cymorth iechyd meddwl, mannau awyr agored a chysylltiad cymunedol**. Mae'r canfyddiadau hefyd yn awgrymu bod cyfleoedd i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o Hawl y Gymuned i Brynu ymhlith pobl iau.